# Canllawiau i Gyrff Llywodraethu

## Pwyllgorau a Chylch Gorchwyl

MEDI 2025



© Copyright EAS (September 2025) Company Registration Number - 08155408

Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent County Borough Council

monmouthshire sir fynwy

NEWPORT CITY COUNCIL CYNGOR DINAS CASNEWYDD

TORFAEN COUNTY BOROUGH BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

## Cyflwyniad

Rhaid i gorff llywodraethu sicrhau bod strwythur pwyllgor effeithiol yn ei le ganddo er mwyn iddo allu rheoli ei fusnes mewn modd effeithiol, er mwyn cyflawni cyfrifoldebau statudol, ac er mwyn ei gwneud yn bosibl dosbarthu'r llwyth gwaith rhwng aelodau'r corff llywodraethu.

Mae'n fater i bob corff llywodraethu benderfynu sut y bydd yn mynd o gwmpas ei fusnes a pha fath o strwythur pwyllgor fydd yn ateb ei ddibenion orau. Fodd bynnag, wrth wneud hynny, mae'n rhaid iddo weithredu'n unol â rheoliadau, a chofio bod ganddo gyfrifoldeb statudol dros waith rheoli'r ysgol, a phennu'r fframwaith a pholisïau. Y pennaeth sy'n gyfrifol am reoli'r ysgol o ddydd i ddydd o fewn y fframwaith a pholisïau cytunedig.

Bwriad y canllaw hwn yw darparu gwybodaeth am y gofynion, a'r cylch gorchwyl a argymhellir ar gyfer pwyllgorau statudol ac anstatudol, gan gynnwys model y bydd cyrff llywodraethu am ei ystyried a'i fabwysiadu o bosib.

## Datblygiad a chymorth i lywodraethwyr

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os oes angen cymorth arnoch, mae croeso i chi gysylltu â ni.

**Ymholiadau cyffredinol:** governor.support@sewaleseas.org.uk
**Gwaith achos pwyllgorau statudol:** statutory.committees@sewaleseas.org.uk

| Cynnwys | | Rhif tudalen |
|---|---|---|
| **Arweiniad cyffredinol** | | **3** |
| **Pwyllgorau statudol** | | **4** |
| **Pwyllgorau anstatudol** | | **5** |
| **Cofnodi penderfyniadau mewn cofnodion** | | **6** |
| **Pwerau dirprwyedig** | | **7** |
| **Cylchoedd gorchwyl – Crynodeb ysgol** | **Atodiad A** | **9** |
| **Cylchoedd gorchwyl ar gyfer pwyllgorau statudol** | **Atodiad B** | **11** |
| **Cylch gorchwyl (meysydd Estyn) model pwyllgor anstatudol** | **Atodiad C** | **38** |
| **Strwythur pwyllgor enghreifftiol** | **Atodiad D** | **45** |

# Arweiniad ar bwyllgorau a'r cylch gorchwyl

Rhaid i'r corff llywodraethu benderfynu ar gyfansoddiad, aelodaeth, cylch gorchwyl a phwerau dirprwyedig unrhyw bwyllgor y mae'n penderfynu ei sefydlu. Dylid adolygu'r rhain yn flynyddol, a hynny yn ystod y cyfarfod cyffredinol blynyddol yn ddelfrydol.

**Cadeirydd pwyllgorau**
Rhaid sicrhau bod gan bob pwyllgor gadeirydd. Gall y corff llywodraethu cyfan wneud y penodiad hwn yn ystod y cyfarfod cyffredinol blynyddol, neu gall y pwyllgor wneud hynny pan fydd yn cwrdd am y tro cyntaf. Ni ellir ethol unrhyw unigolyn a gyflogir i weithio mewn ysgol i fod yn gadeirydd ac ni all weithredu fel cadeirydd ychwaith.

Yn absenoldeb y cadeirydd penodedig, rhaid i'r pwyllgor benodi aelod i weithredu fel cadeirydd.

Nid oes angen i gadeirydd pwyllgor fod yn gadeirydd y corff llywodraethu, a gwaherddir hyn yn achos pwyllgorau statudol penodol

**Aelodau nad ydynt yn llywodraethwyr**
Gall rhai pwyllgorau gynnwys aelodau nad ydynt yn llywodraethwyr, a all fod yn aelodau â phleidlais neu aelodau dibleidlais o'r pwyllgor, gan ddibynnu ar y cylch gorchwyl cytunedig. Lle mae pwyllgor yn gofyn i'w aelodau fwrw pleidlais a bod aelodau nad ydynt yn llywodraethwyr yn bresennol, rhaid i fwyafrif y pwyllgor fod yn aelodau o'r corff llywodraethu.

Mae'n ofynnol o dan y Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir bod RHAID i unrhyw bwyllgor disgyblu a diswyddo staff (neu bwyllgor apeliadau) sy'n ymgynnull i glywed mater sy'n ymwneud â honiadau mewn perthynas â materion amddiffyn plant gynnwys aelod annibynnol nad yw'n llywodraethwr. (I gael rhagor o fanylion, gweler cylchlythyr Llywodraeth Cymru ar weithdrefnau disgyblu a diswyddo ar gyfer staff ysgolion.)

**Llywodraethwyr wrth gefn**
Pan gaiff llywodraethwyr eu penodi i bwyllgor, argymhellir penodi llywodraethwyr wrth gefn. Gall pob corff llywodraethu benderfynu ar y dull o ddethol llywodraethwyr wrth gefn. Argymhellir cyflwyno datganiad ar y dull o ddethol llywodraethwyr wrth gefn wrth drafod prosesau yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol.

**Pwyllgorau – Cyfrifoldebau**
Rhaid cael cytundeb clir a chadw cofnod ysgrifenedig mewn perthynas â chylch gwaith unrhyw bwyllgor, panel neu unigolyn, ynghyd â'r lefel o gyfrifoldeb a ddirprwywyd iddo, er mwyn sicrhau bod pawb yn glir o ran y disgwyliadau.

Mae'n ofynnol bod pwyllgorau'n dilyn yr un gweithdrefnau â'r corff llywodraethu cyfan o safbwynt sicrhau bod pob cyfarfod a gynhelir yn cynnwys yr elfennau canlynol yn ogystal â'r cofnod ysgrifenedig (cofnodion) a nodwyd uchod:

- Agenda sy'n amlygu'r materion i'w trafod
- Rhybudd o bum niwrnod o gyfarfod, ynghyd ag unrhyw bapurau i'w hystyried
- Cofnod o'r unigolion sy'n bresennol A record of those persons present

**Pwerau dirprwyedig**
Nid oes gan unrhyw bwyllgor neu unigolyn y pŵer i weithredu ar ran y corff llywodraethu, oni bai fod y corff llywodraethu cyfan wedi gwneud penderfyniad a gofnodwyd i ddirprwyo'r pŵer i weithredu iddo. Yr unig eithriad i hyn yw mewn argyfwng, lle gallai'r oedi o ganlyniad i drefnu cyfarfod beryglu'r ysgol neu aelod o gymuned yr ysgol. Ceir rhagor o wybodaeth am ddirprwyo pwerau yn **Atodiad A**.

**Dyletswydd statudol i adrodd**
Lle mae swyddogaeth wedi'i dirprwyo, ceir dyletswydd statudol i adrodd unrhyw gam gweithredu neu benderfyniad i'r corff llywodraethu yn ystod y cyfarfod nesaf. Dylai'r corff llywodraethu bennu, a chytuno ar y gofynion adrodd.

Dylid cyflwyno cofnodion cyfarfodydd y pwyllgorau i'r corff llywodraethu cyfan, heblaw mewn achosion lle mae busnes y pwyllgor yn gyfrinachol (e.e. mater sy'n ymwneud â disgyblu, dileu swydd, cwyn, neu ddisgyblaeth disgyblion).

O safbwynt materion cyfrinachol, dylai cadeirydd y pwyllgor gyflwyno adroddiad llafar, i'r corff llywodraethu cyfan, sydd ond yn cynnwys y wybodaeth berthnasol, gan sicrhau y cedwir unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â'r unigolion dan sylw yn gwbl gyfrinachol.  Ni fydd yr adroddiad hwn yn digwydd nes bod y cyfnod apelio wedi dod i ben.

## Pwyllgorau statudol

Fel arfer, pennir enwau'r pwyllgorau statudol mewn rheoliadau, ac felly ni ddylid eu newid na'u haddasu. Mae'n ofynnol bod cyrff llywodraethu'n penodi aelodau i'r pwyllgorau hyn yn flynyddol, a hynny yn ystod y cyfarfod cyffredinol blynyddol yn ddelfrydol, yn hytrach nag aros i fater godi cyn gwneud penodiadau.

Os nad oes digon o lywodraethwyr cymwys i'w penodi, gellir cofnodi gofyniad i benodi yn erbyn y pwyllgor. Dylai llywodraethwyr sy'n gwasanaethu ar unrhyw bwyllgor sicrhau eu bod wedi mynychu cyrsiau dysgu proffesiynol priodol.

Mae'r pwyllgorau canlynol nail ai'n rhai statudol neu'n rhai y mae'n ofynnol iddynt reoli prosesau statudol:

| Pwyllgor | Statudol | Yn ofynnol iddo reoli proses statudol | Ni ddylai cadeirydd y llywodraethwyr fod yn aelod ohono |
|---|---|---|---|
| Disgyblu a diswyddo staff | Y | | Y |
| Apeliadau yn erbyn penderfyniadau sy'n ymwneud â disgyblu a diswyddo staff | Y | | Y |
| Disgyblaeth a gwaharddiadau disgyblion | Y | | |
| Derbyniadau disgyblion *(ar gyfer ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig)* | Y | | |
| Cwynion cyflogaeth ac apeliadau yn erbyn penderfyniadau sy'n ymwneud â chwynion cyflogaeth | | Y | Y |
| Dileu swyddi ac apeliadau yn erbyn penderfyniadau sy'n ymwneud â dileu swyddi *(Blaenau Gwent yn unig – mae polisïau'r awdurdodau lleol eraill yn ei gwneud yn ofynnol i'r pwyllgor disgyblu a diswyddo staff gwblhau'r broses hon)* | | Y | |
| Cwynion | | Y | Y |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rheoli perfformiad y pennaeth<br>*ac apeliadau yn ôl y gofyn* | Y | | |
| Adolygu cyflogau ac apeliadau yn erbyn penderfyniadau sy'n ymwneud ag adolygu cyflogau | | Y | |
| Dethol y pennaeth a dirprwy bennaeth *(ac eithrio ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir lle gellir penodi'r corff llywodraethu cyfan i'r panel dethol)* | Y | | |
| Galluogrwydd<br>*(o arweiniad Llywodraeth Cymru)* | | Y | Y |
| Apeliadau yn erbyn penderfyniadau sy'n ymwneud â galluogrwydd<br>*(o arweiniad Llywodraeth Cymru)* | | Y | |

Dylai llywodraethwyr benderfynu sut y dylid ymdrin â materion fel ceisiadau staff am weithio'n hyblyg, rhannu swydd, rhybudd o absenoldeb, a cheisiadau am secondiad. Dylai hyn fod yn unol â'r polisïau a fabwysiadwyd ganddynt.

Lle mae'r polisi'n pennu mai ar lefel y llywodraethwyr y dylid gwneud y penderfyniad hwn, gall llywodraethwyr sefydlu pwyllgor ceisiadau gan staff a phwyllgor apeliadau. Bydd angen sicrhau bod hyn wedi'i nodi'n glir mewn cofnodion ynghyd â'r trefniadau dirprwyo a'r cylch gorchwyl ar gyfer y pwyllgor.

**Penodi clerc**
Dylid penodi clerc i bob pwyllgor statudol. Os yw'r ysgol wedi prynu'r opsiwn cytundeb lefel gwasanaeth Gwasanaeth Clerc Proffesiynol perthnasol a ddarperir fel rhan o gefnogaeth y GCA i lywodraethwyr, gall yr ysgol wneud cais am gymorth clerc mewn perthynas ag unrhyw fater ac eithrio rheoli perfformiad, adolygu cyflogau, a phenodiadau'r pennaeth a'r dirprwy bennaeth.

Ni all y pennaeth weithredu fel y cadeirydd na'r clerc ar gyfer unrhyw bwyllgor.

## Pwyllgorau anstatudol

Mae pwyllgorau anstatudol yn weithgorau a sefydlwyd gan gorff llywodraethu ysgol i ganolbwyntio ar feysydd penodol fel dysgu, cwricwlwm, cyllid, neu adeiladau.

Er nad ydynt yn gyfreithlon, maent yn hanfodol i gefnogi'r corff llywodraethu i reoli ei gyfrifoldebau yn effeithiol.

Mae pwyllgorau i'w penderfynu gan y corff llywodraethu ac maent yn gyfrifol am graffu, cynghori a gwneud argymhellion i'r corff llywodraethu llawn, sy'n cadw pŵer gwneud penderfyniadau, oni bai bod y pŵer hwnnw wedi'i ddirprwyo yn y cylch gorchwyl.

Er bod y pwyllgorau penodol yn amrywio yn ôl ysgol, mae enghreifftiau cyffredin yn cynnwys:

- **Cwricwlwm a Dysgu:** Goruchwylio cwricwlwm, deilliannau addysgol, a safonau addysgu a dysgu yr ysgol. (***)**

- **Cyllid ac Adnoddau:** Rheoli cyllideb yr ysgol, cynllunio ariannol, a sicrhau bod adnoddau yn cael eu defnyddio'n effeithiol. (***)**
- **Adeiladau a Chyfleusterau:** Monitro rheoli, diogelwch a chynnal a chadw adeiladau a chyfleusterau ysgol.
- **Personél/Staffing:** Cynghori ar faterion staffio, recriwtio, a pholisïau personél.

| **Cyngor Pwysig (*)** |
|---|
| Er nad yw pwyllgorau anstatudol yn gyfreithiol, fel y mae eu henw'n awgrymu, yn cael eu gorfodi yn gyfreithiol, mae'n hanfodol bod Cyrff Llywodraethu yn sicrhau bod craffu ar waith yr ysgol yn y 4 ardal uchod yn cael ei wneud drwy sefydlu'r ddau gyntaf uchod neu drwy bwyllgorau sy'n gysylltiedig ag Ardaloedd Arolygu 1 a 3 yn y drefn honno. |

## Pwrpas a Swyddogaeth

- **Canolbwyntio ar feysydd penodol:** Mae pwyllgorau anstatudol yn caniatáu i gyrff llywodraethu ymchwilio'n ddyfnach i feysydd penodol o reoli ysgolion, megis cwricwlwm, dysgu, cyllid, adeiladau a phersonél.
- **Arbenigedd a Sgiliau:** Maent yn darparu ffordd strwythuredig i lywodraethwyr ddefnyddio eu sgiliau proffesiynol a'u harbenigedd mewn meysydd fel cyllid, y gyfraith, adnoddau dynol, neu reoli adeiladau.
- **Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd:** Trwy ymdrin â gwaith manwl mewn pwyllgorau, gall y corff llywodraethu llawn gynnal ffocws strategol ar ei gyfrifoldebau craidd, gan arwain at wneud penderfyniadau mwy effeithlon ac effeithiol.
- **Adrodd ac Argymhellion:** Mae pwyllgorau'n adrodd eu canfyddiadau, eu hargymhellion a'u penderfyniadau i'r corff llywodraethu llawn, sydd wedyn yn gwneud y penderfyniadau terfynol.

## Nodweddion Allweddol

- **Yn ôl disgresiwn:** Mae gan y corff llywodraethu y rhyddid i benderfynu pa bwyllgorau anstatudol i'w sefydlu a beth fydd eu cylch gorchwyl (cylch gorchwyl).
- **Cofnodion Angenrheidiol: Er** nad oes mandad cyfreithiol i gael clerc, rhaid cymryd cofnodion mewn cyfarfodydd pwyllgor anstatudol i ddogfennu trafodaethau a phenderfyniadau ar gyfer y corff llywodraethu llawn.
- **Cyfrifoldeb Llywodraethwr:** Disgwylir i lywodraethwyr ymuno â phwyllgorau sy'n cyd-fynd â'u sgiliau a'u diddordebau.

Gall cyrff llywodraethu benderfynu sefydlu pwyllgorau anstatudol eraill a dylent benderfynu ar y model sy'n diwallu eu hanghenion. Darperir model enghreifftiol yn Atodiad D, wedi'i alinio ag ardaloedd Arolygu Estyn. Bydd pob pwyllgor angen cylch gorchwyl clir. Darperir cylch gorchwyl enghreifftiol yn atodiadau'r canllaw hwn.

## Cofnodi penderfyniadau mewn cofnodion

Er mwyn sicrhau y cofnodir penderfyniadau mewn perthynas â'r cylch gorchwyl a fabwysiadir, bydd angen i lywodraethwyr eu cynnwys yn y cofnodion yn eu cyfanrwydd, neu gallent ystyried defnyddio'r ffurflen isod, y dylid ei chwblhau, ei llofnodi gan y cadeirydd, a'i chynnwys fel rhan o'r cofnodion. Gellir defnyddio'r ffurflen hefyd i gofnodi enwau'r aelodau wrth gefn ar gyfer pob pwyllgor.

Mae pob cylch gorchwyl yn cynnwys manylion am gyfrifoldebau dirprwyedig pob pwyllgor. Yn ogystal, dylai llywodraethwyr ystyried unrhyw benderfyniadau dirprwyedig eraill sydd angen eu cofnodi. Gallai'r rhain gynnwys y canlynol:

- dirprwyo materion ariannol, gan gynnwys y symiau ariannol, weithiau gyda chymeradwyaeth y cadeirydd, y mae gan y pennaeth yr hawl i'w symud rhwng penawdau'r gyllideb heb gymeradwyaeth y pwyllgor cyllid/y corff llywodraethu).
- y swyddi, os o gwbl, y dirprwyir y cyfrifoldeb o'u penodi i'r pennaeth/UDA, er enghraifft swyddi dros dro.

## Pwerau dirprwyedig

Nid oes gan unrhyw bwyllgor neu unigolyn yr hawl i weithredu ar ran y corff llywodraethu oni bai fod y corff llywodraethu cyfan wedi gwneud penderfyniad a gofnodwyd i ddirprwyo'r pŵer i weithredu i'r pwyllgor neu unigolyn hwnnw, ac eithrio mewn argyfwng, lle gallai'r oedi o ganlyniad i drefnu cyfarfod beryglu'r ysgol neu aelod o gymuned yr ysgol. Yn y sefyllfa hon, mae gan gadeirydd y llywodraethwyr (neu ddirprwy gadeirydd y llywodraethwyr yn ei (h)absenoldeb) y pŵer i wneud penderfyniad ar ran y corff llywodraethu, ond nid yw'r pŵer hwn yn berthnasol i unrhyw swyddogaeth y mae'n rhaid i'r corff llywodraethu cyfan neu bwyllgor statudol ei chyflawni. *Rhaid adrodd unrhyw gamau a gymerwyd i'r corff llywodraethu cyn gynted â phosibl.*

Mae'n hanfodol bwysig y cedwir cofnodion manwl gywir o ba dasgau sydd wedi'u dirprwyo ac i bwy, ynghyd â'r gofynion adrodd. Ni ellir dirprwyo rhai swyddogaethau (gweler y manylion isod), ond mae'n bosibl y bydd y corff llywodraethu'n penderfynu dirprwyo cyfrifoldeb dros ddrafftio neu adolygu i bwyllgor neu weithgor cyn i'r corff llywodraethu gadarnhau'r gwaith a wnaed. Dylid sicrhau bod hyn wedi'i nodi yng nghofnodion y corff llywodraethu. Mae pwerau dirprwyo o'r fath yn grymuso aelodau'r corff llywodraethu a thîm arwain yr ysgol, ac yn ei gwneud yn bosibl i'r corff llywodraethu weithio'n fwy effeithiol.

**Swyddogaethau na ellir mo'u dirprwyo**

**Ni all** y corff llywodraethu ddirprwyo'i swyddogaethau mewn perthynas â'r canlynol (rhan 8, paragraff 51(1) o reoliadau 2005):

- a. Penderfynu ar gategorïau'r llywodraethwyr
- b. Penderfyniadau ar gyfansoddiad y corff llywodraethu
- c. Tynnu neu atal llywodraethwyr
- ch. Gwaith llunio offerynnau llywodraethu
- d. Ethol a thynnu'r cadeirydd a'r dirprwy gadeirydd
- dd. Penodi a thynnu clerc y corff llywodraethu
- e. Dirprwyo swyddogaethau
- f. Sefydlu pwyllgorau
- ff. Elfennau penodol o waith penodi'r pennaeth a'r dirprwy bennaeth, fel pennu'r raddfa cyflogau a chadarnhau'r penderfyniad dethol
- g. Cymeradwyo'r cynllun cyntaf y gyllideb yn ystod unrhyw flwyddyn ariannol
- ng. Cymeradwyo prosbectws yr ysgol
- h. Cymeradwyo'r adroddiad blynyddol i rieni
- i. Cyhoeddi cynigion ar gyfer addasu neu gau'r ysgol
- l. Cyhoeddi cynigion ar gyfer newid categori'r ysgol
- ll. Penderfynu ar drefniadau derbyn disgyblion
- m. Gwrthwynebu trefniadau derbyn gan awdurdod derbyn arall
- n. Sefydlu niferoedd derbyn a cheisio amrywiad i niferoedd safonol
- o. Gwneud trefniadau i apelio yn erbyn derbyniadau (ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir yn unig)
- p. Pennu amseroedd i sesiynau'r ysgol
- ph. Penderfynu ar drefniadau ar gyfer addoli ar y cyd

r. Penderfynu ar fanylion cais i gynghorau cynghorol mewn perthynas â'r gofynion ar gyfer addoli Cristnogol ar y cyd

rh. Mabwysiadu ac adolygu'r cytundeb rhwng yr ysgol a'r cartref

s. Sicrhau y darperir addysg ryw mewn ffordd sy'n annog disgyblion i roi sylw dyledus i ystyriaethau moesegol a gwerth bywyd teuluol

t. Gwahardd trwytho gwleidyddol a sicrhau ymdriniaeth gyfartal o faterion gwleidyddol

th. Penderfynu ar bolisïau ar daliadau a dileadau, a'u hadolygu

**<u>Swyddogaethau y mae'n rhaid i bwyllgor neu banel ymdrin â nhw</u>**

Rhaid dirprwyo'r canlynol i bwyllgor neu banel:

a. Disgyblu a diswyddo staff, ac apeliadau gan staff yn erbyn penderfyniadau sy'n ymwneud â disgyblu neu ddiswyddo (gan gynnwys penderfyniad mewn perthynas â dileu swydd)

b. Materion yn ymwneud â chwynion cyflogaeth gan staff

c. Sylwadau ysgrifenedig ynghylch gwahardd disgyblion

ch. Dethol pennaeth a dirprwy bennaeth (nid mewn ysgolion gwirfoddol a gynhelir)

d. Rheoli perfformiad y pennaeth

dd. Dyfarniadau cyflog unigol i staff

e. Ystyried cwynion

f. Unrhyw benderfyniad arall y dylai fod gan unigolyn yr hawl i gyflwyno apêl yn ei erbyn trwy'r corff llywodraethu, e.e. galluogrwydd, ceisiadau i weithio'n hyblyg

**<u>Swyddogaethau na ellir eu dirprwyo i unigolyn</u>**

Ni ellir dirprwyo'r canlynol i unigolyn:

a. Swyddogaethau sy'n ymwneud ag addasu neu gau'r diwrnod ysgol
b. Swyddogaethau sy'n ymwneud â newid category ysgolion a gynhelir
c. Cymeradwyo cynllun cyllideb ffurfiol cyntaf yr ysgol a gyflwynir i'r awdurdod lleol ar gyfer bob blwyddyn ariannol. Nid yw hyn yn cynnwys unrhyw gynllun cyllideb dros dro na diwygiadau dilynol
d. Penderfynu ar bolisïau disgyblu'r ysgol
e. Targedau presenoldeb yr ysgol
f. Penderfyniadau mewn perthynas â manylion y safle i'w cyflwyno i'r Senedd i'w cymeradwyo

**<u>Deddfwriaeth berthnasol, dogfennau eraill a chanllawiau</u>**

Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005
Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006
Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2007
Rheoliadau Cydweithio rhwng Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2008
Rheoliadau Trefniadau Cydlafurio (Ysgolion a Gynhelir a Chyrff Addysg Bellach) Cymru) 2008
Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011
Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) (Blynyddol)
Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2011
Canllawiau ar broses Ffedereiddio ysgolion a gynhelir yng Nghymru Canllawiau i gyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol 2014
Rheoliadau Llywodraethu a Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2017

# Cylchoedd Gorchwyl Pwyllgorau Atodiad A

## *Ysgol:*

| Enw'r pwyllgor | Wedi'i fabwysiadu? | |
|---|---|---|
| | Ydy | Nac ydy |
| Pwyllgorau statudol | | |
| Disgyblu a diswyddo staff | | |
| Apeliadau yn erbyn penderfyniadau sy'n ymwneud â disgyblu a diswyddo staff | | |
| Disgyblaeth a gwaharddiadau disgyblion | | |
| Derbyniadau disgyblion (ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig yn unig) | | |
| Cwynion cyflogaeth | | |
| Apeliadau yn erbyn penderfyniadau sy'n ymwneud â chwynion cyflogaeth | | |
| Dileu swyddi (ysgolion Blaenau Gwent yn unig) | | |
| Apeliadau yn erbyn penderfyniadau sy'n ymwneud â dileu swyddi (Blaenau Gwent yn unig) | | |
| Cwynion | | |
| Adolygu datblygiad proffesiynol y pennaeth | | |
| Adolygu cyflogau | | |
| Apeliadau yn erbyn penderfyniadau sy'n ymwneud ag adolygu cyflogau | | |
| Panel dethol pennaeth a dirprwy bennaeth | | |
| Galluogrwydd | | |
| Apeliadau yn erbyn penderfyniadau sy'n ymwneud â galluogrwydd | | |
| Anstatudol (Os yw'n dilyn Model cysylltiedig ag Estyn) | | |
| Pwyllgor Ceisiadau Staff | | |
| Pwyllgor Apêl Ceisiadau Staff | | |
| Addysgu a Dysgu (Estyn AA1) | | |
| Lles, gofal, cefnogaeth ac arweiniad Estyn AA2) | | |
| Arwain a Gwella (Estyn AA3) | | |
| Model y mae rhai cyrff llywodraethu'n dewis ei ddilyn | | |
| Cwricwlwm a Dysgu (o fewn AA1) (*) | | |
| Cyllid ac Adnoddau (o fewn AA3) (*) | | |
| Mangreoedd a Chyfleusterau (o fewn AA3) | | |
| Personél / Staffio (o fewn AA3) | | |
| Lles (o fewn AA2) | | |

Dylid adolygu'r symiau ariannol y mae gan y pennaeth hawl i'w symud rhwng penawdau'r gyllideb heb gymeradwyaeth y pwyllgor cyllid/y corff llywodraethu, yr hyn a ddirprwyir, a'r llofnodwyr awdurdodedig ar ddechrau'r flwyddyn ariannol.

Mae'r llywodraethwyr isod yn llywodraethwyr wrth gefn cytunedig ar gyfer pob un o'r pwyllgorau uchod, yn ôl y drefn flaenoriaeth a restrir, oni bai fod un o'r canlynol yn berthnasol: mae'r unigolyn eisoes yn aelod; mae ganddo ddiddordeb personol; mae wedi'i anghymhwyso o dan reoliadau/polisi; neu bu'n rhan o'r pwyllgor cyntaf lle roedd y cyfarfod yn ymwneud ag apêl.

**Dyddiad cytuno: ……………..….. Llofnodwyd: ……………………………… (Cadeirydd)**

# Cylchoedd Gorchwyl ar gyfer Pwyllgorau Statudol

## PWYLLGOR DISGYBLU A DISWYDDO STAFF[1]

**Diben y pwyllgor**
Sefydlir y pwyllgor i ymdrin â materion sy'n ymwneud â disgyblu a diswyddo staff, yn unol â gweithdrefnau perthnasol yr ysgol.

**Aelodaeth**
Dim llai na thri aelod o'r corf llywodraethu.
Gellir penodi unigolion nad ydynt yn llywodraethwyr, ond byddant yn ddibleidlais, ac eithrio yn achos honiadau sy'n ymwneud ag amddiffyn plant, ac, yn y sefyllfa honno, rhaid sicrhau bod aelodaeth y pwyllgor fel a ganlyn:

- *dau lywodraethwr ac*
- *unigolyn â phleidlais nad yw'n llywodraethwr nad yw'n:*
  - *llywodraethwr yn yr ysgol, neu'n*
  - *rhiant i ddisgybl sy'n mynychu'r ysgol ar hyn o bryd neu a fynychodd yr ysgol yn flaenorol, neu*
  - *aelod o staff yr ysgol ar hyn o bryd neu a fu'n aelod o staff yr ysgol yn flaenorol, neu*
  - *unigolyn sydd wedi'i gyflogi ar hyn o bryd yn yr awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol*

Oni bai fod y gweithdrefnau a gytunwyd yn ystod y cyfarfod cyffredinol blynyddol yn nodi'n wahanol, bydd angen i'r corff llywodraethu cyfan gwrdd i benodi'r unigolyn nad yw'n llywodraethwr yn achos honiadau sy'n ymwneud ag amddiffyn plant.

**Anghymwysiadau**
- Y pennaeth
- Disgybl-lywodraethwyr cyswllt
- Athro-lywodraethwyr a staff-lywodraethwyr ac unrhyw aelod arall o staff a all fod yn llywodraethwr.[2]

**Cyfyngiadau ar unigolion sy'n cymryd rhan mewn achosion**
- Ni ddylai cadeirydd y corff llywodraethu fod yn aelod o'r pwyllgor hwn fel arfer oherwydd ei fod yn debygol o fod â gwybodaeth flaenorol.
- Unrhyw aelod o'r pwyllgor a all fod wedi'i lygru, neu sydd â diddordeb uniongyrchol yn yr achos dan sylw neu sydd ynghlwm wrtho.

**Ethol y cadeirydd**
Wedi'i benodi gan y corff llywodraethu neu'i ethol gan y pwyllgor – i'w benderfynu gan y corff llywodraethu. Lle penodwyd rhywun nad yw'n aelod o'r corff llywodraethu, ni fydd yn gallu chwarae rhan y cadeirydd.[3]

**Clerc**
Mae'n ofynnol o dan y gyfraith fod clerc wedi'i benodi i'r pwyllgor hwn. Gall y sawl sy'n cyflawni gwaith y clerc ar gyfer y pwyllgor hwn fod yn glerc ar gyfer y corff llywodraethu yn ogystal, neu gall

[1] Cylchlythyr rhif 002/2020, Gweithdrefnau disgyblu a diswyddo staff ysgol: canllawiau diwygiedig i gyrff llywodraethu, Llywodraeth Cymru
[2] Rheoliad 63 ac Atodlen 7 o Reoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005
[3] Rheoliad 54(5) o Reoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005

fod yn unigolyn gwahanol. Oherwydd natur gyfrinachol y materion y mae'r pwyllgor hwn yn eu hystyried, mae'n well sicrhau nad yw aelod o staff yr ysgol yn gweithredu fel clerc i'r pwyllgor hwn[4].

Lle mae'r achos yn ymwneud ag ymchwiliad disgyblaethol i honiadau sydd â'r potensial i fod cyfystyr â chamymddwyn difrifol, dylai'r clerc hefyd gofnodi'r drafodaeth a gynhelir rhwng cadeirydd y llywodraethwyr a'r pennaeth, neu gadeirydd y llywodraethwyr a llywodraethwr arall, ynghyd â'r penderfyniad a wneir ganddynt, pan fônt yn derbyn adroddiad yr ymchwiliad.

**Cworum**

Cworwm y pwyllgor hwn fydd o leiaf tri llywodraethwr, neu dau lywodraethwr ac unigolyn annibynnol nad yw'n llywodraethwr ar gyfer honiadau sy'n ymwneud ag amddiffyn plant.[5]

**Pwerau dirprwyedig**

Mae'r corff llywodraethu'n rhoi pwerau dirprwyedig ar gyfer penderfyniadau i'r pwyllgor hwn ar XXXX [dyddiad].

**Cyfarfodydd**

- Bydd y pwyllgor yn cwrdd yn ôl y gofyn.
- Bydd y clerc, neu'r sawl sy'n gweithredu fel clerc, yn ysgrifennu cofnodion ar gyfer pob cyfarfod.
- Dylid diogelu, a chadw'n gyfrinachol unrhyw gofnodion sy'n ymwneud â gweithdrefnau y mae'r pwyllgor disgyblu a diswyddo staff yn eu hystyried.
- Cyflwynir penderfyniadau'r pwyllgor i'r corff llywodraethu cyfan, fel eitem gyfrinachol, ac er gwybodaeth, pan fo'r broses apeliadau wedi'i chwblhau neu pan fo'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno apêl wedi mynd heibio ac ni chafodd apêl mo'i derbyn.

**Cylch gorchwyl**

- Ystyried unrhyw faterion a allai arwain at ddiswyddo unigolyn[6] (Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir), a gwneud penderfyniadau yn eu cylch, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau perthnasol yr ysgol, gan gynnwys materion disgyblu, galluogrwydd (y camau terfynol), salwch, dileu swydd ac ati.
- Sicrhau bod cyfansoddiad aelodaeth y pwyllgor yn briodol a diduedd, ac nad oes gan yr aelodau ddiddordeb uniongyrchol yn yr achos dan sylw.
- Ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynir, gan gynnwys, er enghraifft, adroddiad yr ymchwiliad ac unrhyw dystiolaeth gan dystion, a gwneud penderfyniadau pwyllog sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- Mae cadeirydd y pwyllgor yn gyfrifol am bennu'r trefniadau a'r drefn busnes ar gyfer diwrnod y gwrandawiad.
- Ceisio cyngor proffesiynol gan yr awdurdod lleol, yr awdurdod esgobaethol, neu eraill, yn ôl y gofyn.
- Penderfynu ar ganlyniad priodol ar gyfer gwrandawiad y pwyllgor, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau perthnasol yr ysgol.
- Mynychu cyfleoedd dysgu proffesiynol perthnasol fel y bo'n briodol.

---

[4] Penodi clerc – Rheoliad 42 o Reoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005

[5] Rheoliad 55(9) o Reoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005 a Rheoliad 8(3) o Reoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006

[6] Rheoliad 55(1) o Reoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005 a Rheoliadau 17(1) a 29(1) o Reoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006

## PWYLLGOR APELIADAU YN ERBYN PENDERFYNIADAU SY'N YMWNEUD Â DISGYBLU A DISWYDDO STAFF[7]

**Diben**

Sefydlir y pwyllgor i ystyried unrhyw apeliadau mewn perthynas â'r canlynol:

(i) penderfyniadau a wneir gan y pwyllgor disgyblu a diswyddo staff, yn unol â gweithdrefnau perthnasol yr ysgol

(ii) apeliadau yn erbyn sancsiynau a osodir gan y pennaeth drwy weithdrefnau camymddwyn llai

**Aelodaeth**

Yr un nifer o lywodraethwyr o leiaf â'r pwyllgor disgyblu a diswyddo staff, ond gall gynnwys nifer mwy o bosibl. Gellir penodi unigolion nad ydynt yn llywodraethwyr iddo, ond byddant yn ddibleidlais, ac eithrio yn achos honiadau sy'n ymwneud ag amddiffyn plant, ac, yn y sefyllfa honno, rhaid sicrhau bod aelodaeth y pwyllgor fel a ganlyn:

- *dau lywodraethwr ac*
- *unigolyn â phleidlais nad yw'n llywodraethwr nad yw'n:*
  - *llywodraethwr yn yr ysgol, neu'n*
  - *rhiant i ddisgybl sy'n mynychu'r ysgol ar hyn o bryd neu a fynychodd yr ysgol yn flaenorol, neu*
  - *aelod o staff yr ysgol ar hyn o bryd neu a fu'n aelod o staff yr ysgol yn flaenorol, neu*
  - *unigolyn sydd wedi'i gyflogi ar hyn o bryd yn yr awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol*

**Rhaid i'r unigolyn hwn nad yw'n llywodraethwr fod yn unigolyn gwahanol i'r sawl a fu'n aelod o'r pwyllgor gwreiddiol.**

Oni bai fod y gweithdrefnau a gytunwyd yn ystod y cyfarfod cyffredinol blynyddol yn nodi'n wahanol, bydd angen i'r corff llywodraethu cyfan gwrdd i benodi'r unigolyn nad yw'n llywodraethwr yn achos honiadau sy'n ymwneud ag amddiffyn plant.

**Anghymwysiadau**

- Y pennaeth
- Disgybl-lywodraethwyr cyswllt
- Llywodraethwyr sydd ynghlwm wrth y pwyllgor disgyblu a diswyddo staff sy'n ymwneud â'r apêl
- Athro-lywodraethwyr a staff-lywodraethwyr ac unrhyw aelod arall o staff a all fod yn llywodraethwr.[8]

**Cyfyngiadau ar unigolion sy'n cymryd rhan mewn achosion**

- Ni ddylai cadeirydd y corff llywodraethu fod yn aelod o'r pwyllgor hwn fel arfer oherwydd ei fod yn debygol o fod â gwybodaeth flaenorol.
- Unrhyw aelod o'r pwyllgor a all fod wedi'i lygru, neu sydd â diddordeb uniongyrchol yn yr achos dan sylw neu sydd ynghlwm wrtho.

**Ethol y cadeirydd**

[7] Cylchlythyr rhif 002/2013, Gweithdrefnau disgyblu a diswyddo staff ysgol: canllawiau diwygiedig i gyrff llywodraethu, Llywodraeth Cymru

[8] Rheoliad 63 o Reoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005

Wedi'i benodi gan y corff llywodraethu neu'i ethol gan y pwyllgor – i'w benderfynu gan y corff llywodraethu. Lle penodwyd aelod nad yw'n llywodraethwr, ni fydd yn gallu chwarae rhan y cadeirydd.

**Clerc**

Mae'n ofynnol o dan y gyfraith fod clerc wedi'i benodi i'r pwyllgor hwn. Gall y sawl sy'n cyflawni gwaith y clerc ar gyfer y pwyllgor hwn fod yn glerc ar gyfer y corff llywodraethu yn ogystal, neu gall fod yn unigolyn gwahanol. Oherwydd natur gyfrinachol y materion y mae'r pwyllgor hwn yn eu hystyried, mae'n well sicrhau nad yw aelod o staff yr ysgol yn gweithredu fel clerc i'r pwyllgor hwn[9].

**Cworum**

Cworwm y pwyllgor hwn fydd yr un nifer o lywodraethwyr o leiaf a fu'n rhan o'r pwyllgor disgyblu a diswyddo staff a ystyriodd y mater gwreiddiol, gan gynnwys unigolyn annibynnol nad yw'n llywodraethwr ar gyfer honiadau sy'n ymwneud ag amddiffyn plant.

**Pwerau dirprwyedig**

Rhoddodd y corff llywodraethu bwerau dirprwyedig llawn ar gyfer penderfyniadau i'r pwyllgor hwn ar XXXX [dyddiad].

**Cyfarfodydd**

- Bydd y pwyllgor yn cwrdd yn ôl y gofyn.
- Bydd y clerc, neu'r sawl sy'n gweithredu fel clerc, yn ysgrifennu cofnodion ar gyfer pob cyfarfod. Dylid diogelu, a chadw'n gyfrinachol unrhyw gofnodion sy'n ymwneud â gweithdrefnau y mae'r pwyllgor disgyblu a diswyddo staff yn eu hystyried.
- Cyflwynir penderfyniadau'r pwyllgor i'r corff llywodraethu cyfan, fel eitem gyfrinachol, ac er gwybodaeth.

**Cylch gorchwyl**

- Ystyried unrhyw apeliadau a dderbyniwyd yn erbyn penderfyniad a wnaed gan y pwyllgor disgyblu a diswyddo staff, a gwneud penderfyniadau yn eu cylch, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau perthnasol yr ysgol.
- Ystyried unrhyw apeliadau a dderbyniwyd yn erbyn penderfyniadau a wnaed, a sancsiynau a osodwyd gan y pennaeth o dan weithdrefn ddisgyblu'r ysgol.
- Ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynir, gan gynnwys, er enghraifft, adroddiad yr ymchwiliad ac unrhyw dystiolaeth gan dystion, a gwneud penderfyniadau pwyllog sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- Penderfynu ar ganlyniad priodol ar gyfer gwrandawiad y pwyllgor, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau perthnasol yr ysgol. Gall y pwyllgor apeliadau wneud y canlynol:
    - derbyn yr apêl a diddymu'r sancsiwn gwreiddiol a osodwyd/y penderfyniad gwreiddiol a wnaed
    - derbyn yr apêl a gosod sancsiwn llai, neu
    - cefnogi penderfyniad y pwyllgor disgyblu a diswyddo staff a chadarnhau'r sancsiwn gwreiddiol a osodwyd/y penderfyniad gwreiddiol a wnaed
- Sicrhau bod cyfansoddiad aelodaeth y pwyllgor yn briodol a diduedd, ac nad oes gan yr aelodau ddiddordeb uniongyrchol yn yr achos dan sylw.
- Mae cadeirydd y pwyllgor yn gyfrifol am bennu'r trefniadau a'r drefn busnes ar gyfer diwrnod y gwrandawiad.
- Ceisio cyngor proffesiynol gan yr awdurdod lleol, yr awdurdod esgobaethol, neu eraill, yn ôl yr angen.

---

[9] Appointment of Clerk – Regulation 42 of The Government of Maintained Schools (Wales) Regulations 2005

- Mynychu cyfleoedd dysgu proffesiynol perthnasol fel y bo'n briodol.

## PWYLLGOR DISGYBLAETH A GWAHARDDIADAU DISGYBLION

**Diben**
Sefydlir y pwyllgor hwn i adolygu'r defnydd a wneir o waharddiadau yn yr ysgol ac ystyried sylwadau mewn perthynas â gwaharddiadau, yn unol â gweithdrefn yr ysgol.

**Aelodaeth**
Tri neu bum aelod o'r corff llywodraethu.

**Anghymwysiadau**
Y pennaeth
Disgybl-lywodraethwyr cyswllt

**Cyfyngiadau ar unigolion sy'n cymryd rhan mewn achosion**
Unrhyw lywodraethwr lle gall fod gwrthdaro buddiannau posibl (gall hyn gynnwys sefyllfa lle mae'r llywodraethwr yn aelod o staff yr ysgol),

**Ethol y cadeirydd**
Wedi'i benodi gan y corff llywodraethu neu'i ethol gan y pwyllgor – i'w benderfynu gan y corff llywodraethu. Ni all aelodau o staff weithredu fel cadeirydd pwyllgor.

**Clerc**
Mae'n ofynnol o dan y gyfraith fod clerc wedi'i benodi i'r pwyllgor hwn. Gall y sawl sy'n cyflawni gwaith y clerc ar gyfer y pwyllgor hwn fod yn glerc ar gyfer y corff llywodraethu yn ogystal, neu gall fod yn unigolyn gwahanol.

**Cworum**
Cworwm y pwyllgor hwn fydd tri llywodraethwr.

**Pwerau dirprwyedig**
Rhoddodd y corff llywodraethu bwerau dirprwyedig llawn ar gyfer penderfyniadau i'r pwyllgor hwn ar XXXX [dyddiad].

**Cyfarfodydd**
- Bydd y pwyllgor yn cwrdd yn ôl y gofyn.
- Bydd y clerc, neu'r sawl sy'n gweithredu fel clerc, yn ysgrifennu cofnodion ar gyfer pob cyfarfod. Dylid diogelu, a chadw'n gyfrinachol unrhyw gofnodion sy'n ymwneud â gweithdrefnau disgyblaeth disgyblion.
- Cyflwynir penderfyniadau'r pwyllgor i'r corff llywodraethu cyfan, er gwybodaeth, pan fo'r broses apeliadau wedi'i chyflawni.

**Cylch gorchwyl**

- Ystyried penderfyniad y pennaeth i wahardd disgybl, yn unol â gweithdrefnau'r ysgol a chanllawiau Llywodraeth Cymru.
- Ystyried adroddiadau gan y pennaeth a'r rhieni ar faterion sy'n ymwneud ag ymddygiad neu ddisgyblaeth disgyblion.
- Ystyried sylwadau gan rieni neu ddisgyblion, yn achos gwaharddiadau sy'n para pum niwrnod ysgol neu lai, a chofnodi'u hystyriaethau ar gofnod y disgybl. Ni all y pwyllgor gyfarwyddo'r ysgol i dderbyn y disgybl yn ôl yn uniongyrchol.
- Ystyried sylwadau gan rieni yn achos gwaharddiadau y mae eu cyfanswm yn dod i fwy na phum niwrnod ond dim mwy na 15 niwrnod yn ystod un tymor (dylid cynnal y cyfarfod rhwng y

chweched a’r hanner canfed diwrnod ysgol ar ôl derbyn rhybudd y gwaharddiad, ar gais y rhieni neu’r disgybl). Gellir cyfarwyddo’r ysgol i dderbyn y disgybl yn ôl o ganlyniad i’r cyfarfod.
- Ystyried achosion o waharddiadau y mae eu cyfanswm yn dod i fwy na 15 niwrnod yn ystod un tymor NEU waharddiad parhaol (dylid cynnal y cyfarfod rhwng y chweched a’r pymthegfed diwrnod ysgol ar ôl derbyn rhybudd y gwrandawiad). Gellir cyfarwyddo’r ysgol i dderbyn y disgybl yn ôl o ganlyniad i’r cyfarfod.
- Ystyried achosion o waharddiadau lle bydd disgybl yn methu sefyll arholiad o ganlyniad i gael ei wahardd. Os nad yw’n bosibl i’r pwyllgor gwrdd cyn dyddiad yr arholiad, gall cadeirydd y pwyllgor, ar ei ben ei hun, ystyried y gwaharddiad a phenderfynu p’un a ddylid derbyn y disgybl yn ôl ynteu beidio.
- Ceisio cyngor proffesiynol gan yr awdurdod lleol, yr awdurdod esgobaethol, neu eraill, yn ôl yr angen.
- Adolygu’r polisi disgyblaeth disgyblion fel y bo’n briodol, a gwneud argymhellion i’r corff llywodraethu eu trafod a’u cadarnhau.
- Mynychu hyfforddiant perthnasol fel y bo’n briodol.

**PWYLLGOR DERBYNIADAU (ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig)**

| **Diben** |
|---|
| Sefydlir y pwyllgor i adolygu polisi derbyniadau'r ysgol a phenderfynu ar dderbyniadau disgyblion unigol, yn unol â gweithdrefnau'r ysgol. |

**Aelodaeth**
Y pennaeth ac o leiaf dau aelod o'r corff llywodraethu.

**Anghymwysiadau**
Disgybl-lywodraethwyr cyswllt

**Cyfyngiadau ar unigolion sy'n cymryd rhan mewn achosion**
- Unrhyw lywodraethwr sydd â phlentyn sy'n gwneud cais i ymuno â'r ysgol, neu lle ceir gwrthdaro buddiannau mewn perthynas ag unrhyw gais a gyflwynwyd.
- Unrhyw lywodraethwr lle gall fod buddiant ariannol neu wrthdaro buddiannau.[10]

**Ethol y cadeirydd**
Wedi'i benodi gan y corff llywodraethu neu'i ethol gan y pwyllgor – i'w benderfynu gan y corff llywodraethu. Ni all unrhyw aelod o staff na disgybl cofrestredig yn yr ysgol fod yn gadeirydd pwyllgor.

**Clerc**
Mae'n ofynnol o dan y gyfraith fod clerc wedi'i benodi i'r pwyllgor hwn. Gall y sawl sy'n cyflawni gwaith y clerc ar gyfer y pwyllgor hwn fod yn glerc ar gyfer y corff llywodraethu yn ogystal, neu gall fod yn unigolyn gwahanol.

**Cworum**
Cworwm y pwyllgor hwn fydd y pennaeth ac o leiaf dau lywodraethwr.

**Pwerau dirprwyedig**
Rhoddodd y corff llywodraethu bwerau dirprwyedig llawn ar gyfer penderfyniadau i'r pwyllgor hwn ar XXXX [dyddiad].

**Cyfarfodydd**
- Bydd y pwyllgor yn cwrdd yn ôl y gofyn.
- Bydd y clerc, neu'r sawl sy'n gweithredu fel clerc, yn ysgrifennu cofnodion ar gyfer pob cyfarfod. Dylid diogelu, a chadw'n gyfrinachol unrhyw gofnodion sy'n ymwneud â gweithdrefnau disgyblaeth disgyblion.
- Cyflwynir penderfyniadau'r pwyllgor i'r corff llywodraethu cyfan, er gwybodaeth, pan fo'r broses apeliadau wedi'i chyflawni.

**Cylch gorchwyl**

- Adolygu trefniadau derbyn yn flynyddol, a gwneud argymhellion ynghylch newidiadau i'r corff llywodraethu fel y bo'n briodol (gan gynnwys nifer y disgyblion y gall yr ysgol eu derbyn a'r ardal y mae'r ysgol yn ei gwasanaethu).

---

[10] Rheoliad 63 ac Atodlen 7 o Reoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005

- Ystyried unrhyw geisiadau am dderbyn disgybl i'r ysgol a gwneud penderfyniadau yn eu cylch, yn unol â'r polisi derbyniadau, meini prawf prinder lleoedd (lle mae nifer y ceisiadau'n fwy na'r nifer y gellir eu derbyn), a'r ddeddfwriaeth berthnasol.
- Pan mae'r pwyllgor yn gwrthod cais gan riant am dderbyn ei blentyn, bydd y pwyllgor yn sicrhau yr hysbysir y rhiant am ei hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad a sut y gellir cyflwyno'r apêl honno.
- Rhoi sylw llawn i'r Cod Derbyn i Ysgolion gan Lywodraeth Cymru[11], a chydymffurfio â'r darpariaethau statudol o fewn y cod hwnnw.
- Mewn achosion lle mae'n ofynnol i lywodraethwyr gymryd rhan mewn panel derbyn annibynnol ar gyfer ysgol arall , rhaid i lywodraethwyr roi sylw i'r Cod Apeliadau Derbyn i Ysgolion gan Lywodraeth Cymru[12].
- Ceisio cyngor proffesiynol gan yr awdurdod lleol, yr awdurdod esgobaethol, neu eraill, yn ôl yr angen.
- Mynychu hyfforddiant perthnasol fel y bo'n briodol.

---

[11]l https://llyw.cymru/derbyniadau-ysgolion

[12] https://llyw.cymru/derbyniadau-ysgolion

## PWYLLGOR CWYNION CYFLOGAETH

**Diben**
Sefydlir y pwyllgor hwn i ystyried cwynion cyflogaeth a dderbynnir gan staff, a gwneud penderfyniadau yn eu cylch, yn unol â gweithdrefnau cwynion cyflogaeth yr ysgol.

**Aelodaeth**
Dylai'r corff llywodraethu gytuno ar nifer yr aelodau, ond mae'n arfer da sicrhau bod y pwyllgor yn cynnwys o leiaf tri aelod o'r corff llywodraethu. Gall pwyllgor cwynion cyflogaeth gynnwys unigolion nad ydynt yn llywodraethwyr, a all fod â phleidlais – lle mae'r corff llywodraethu wedi cytuno i hynny. Fodd bynnag, ni ddylai corff llywodraethu adael i unrhyw gorff neu unigolion allanol i wneud penderfyniadau ar ei ran.

**Anghymwysiadau**
Dim.

**Cyfyngiadau ar unigolion sy'n cymryd rhan mewn achosion**
- Y pennaeth (ond gall fod achlysuron pan elwir ar y pennaeth i gyflwyno tystiolaeth, neu lle'r pennaeth ei hun sy'n destun cwyn cyflogaeth – byddai hynny'n golygu y byddai'n cymryd rhan yn yr achos).
- Ni ddylid penodi aelodau o staff na disgyblion cofrestredig fel aelodau o'r pwyllgor hwn.
- Unrhyw lywodraethwr lle gall fod gwrthdaro buddiannau[13].

**Ethol y cadeirydd**
Wedi'i benodi gan y corff llywodraethu neu'i ethol gan y pwyllgor – i'w benderfynu gan y corff llywodraethu.

**Clerc**
Gall y corff llywodraethu benodi clerc i'r pwyllgor hwn. Gall y sawl sy'n cyflawni gwaith y clerc ar gyfer y pwyllgor hwn fod yn glerc ar gyfer y corff llywodraethu yn ogystal, neu gall fod yn unigolyn gwahanol.

**Cworum**
Cworwm y pwyllgor hwn fydd tri.

**Pwerau dirprwyedig**
Rhoddodd y corff llywodraethu bwerau dirprwyedig llawn ar gyfer penderfyniadau i'r pwyllgor hwn ar XXXX [dyddiad].

**Cyfarfodydd**
- Bydd y pwyllgor yn cwrdd yn ôl y gofyn.
- Bydd y clerc, neu'r sawl sy'n gweithredu fel clerc, yn ysgrifennu cofnodion ar gyfer pob cyfarfod. Dylid diogelu, a chadw'n gyfrinachol unrhyw gofnodion sy'n ymwneud â gweithdrefnau disgyblaeth disgyblion.
- Cyflwynir penderfyniadau'r pwyllgor i'r corff llywodraethu cyfan, er gwybodaeth, pan fo'r broses apeliadau wedi'i chyflawni, neu pan fo'r dyddiad cau ar gyfer apeliadau wedi mynd heibio ac ni chafodd unrhyw apêl ei derbyn.

---

[13] Rheoliad 63 ac Atodlen 7 o Reoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005

**Cylch gorchwyl**

- Ystyried unrhyw fater sy’n ymwneud â chwynion cyflogaeth yn unol â gweithdrefn yr ysgol.
- Gwneud penderfyniadau mewn perthynas â chwynion cyflogaeth gan staff, a rhoi gwybod i’r aelod o staff am y canlyniad.
- Ceisio cyngor proffesiynol gan yr awdurdod lleol, yr awdurdod esgobaethol, neu eraill, yn ôl yr angen.
- Mynychu cyfleoedd dysgu proffesiynol fel y bo’n briodol.

## PWYLLGOR APELIADAU ACHWYNIAD

**Diben**
Mae'r pwyllgor hwn yn cael ei sefydlu i ystyried unrhyw apeliadau o ran penderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn ymwneud ag achwyniadau staff yn unol â gweithdrefnau achwyn yr ysgol.

**Aelodaeth**
Mae angen i'r corff llywodraethu gytuno ar niferoedd ond mae'n arfer da cael o leiaf tri aelod o'r corff llywodraethu. Gall pwyllgor apeliadau achwyniad gynnwys aelodau nad ydynt yn llywodraethwyr sy'n gallu bod yn aelodau pleidleisiol, lle mae'r corff llywodraethu wedi cytuno i hyn. Fodd bynnag, ni ddylai corff llywodraethu ganiatáu i unrhyw gorff neu unigolyn allanol wneud penderfyniadau drosto.

**Anghymwysiadau**
Llywodraethwyr sy'n rhan o'r pwyllgor achwyniad cyntaf sy'n ymwneud â'r apêl.

**Cyfyngiadau ar unigolion sy'n cymryd rhan yn y gweithrediadau**
Y Pennaeth (fodd bynnag, efallai y bydd achlysuron lle gelwir ar y pennaeth i roi tystiolaeth neu ei fod yn destun achwyniad sy'n golygu y byddai'n cymryd rhan yn y gweithrediadau)
Ni ddylai aelodau staff na disgyblion cofrestredig gael eu penodi fel aelodau'r pwyllgor hwn.
Unrhyw lywodraethwr lle gall fod gwrthdaro buddiannau[14]

**Ethol Cadeirydd**
Wedi'i benodi gan y corff llywodraeth neu ei ethol gan y pwyllgor – i'w benderfynu gan y corff llywodraethu.

**Clerc**
Gall y corff llywodraethu benodi clerc i'r pwyllgor hwn. Gall fod yr unigolyn sy'n glerc i'r corff llywodraethu neu'n unigolyn gwahanol.

**Cworwm**
Y cworwm ar gyfer y pwyllgor hwn yw tri.

**Pwerau dirprwyedig**
Rhoddwyd pwerau dirprwyedig llawn ar gyfer gwneud penderfyniadau i'r pwyllgor hwn gan y corff llywodraethu ar XXXX.

**Cyfarfodydd**
Bydd y pwyllgor yn cwrdd yn ôl y gofyn. Caiff cofnodion yr holl gyfarfodydd eu llunio gan y clerc neu'r unigolyn sy'n gweithredu fel clerc. Dylai unrhyw gofnodion sy'n ymwneud â'r apêl achwyniad gael eu diogelu a dylid sicrhau eu bod yn cael eu cadw'n gyfrinachol.

Caiff penderfyniadau'r pwyllgor hwn eu cyflwyno gerbron y corff llywodraethu llawn er gwybodaeth.

**Cylch gorchwyl**

- Ystyried a gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud ag unrhyw apeliadau yn erbyn penderfyniadau a wnaed gan y pwyllgor achwyniadau yn unol â gweithdrefn yr ysgol.
- Ceisio cyngor proffesiynol gan yr awdurdod lleol, yr awdurdod esgobaethol neu eraill, yn ôl yr angen.
- Mynychu dysgu proffesiynol perthnasol fel sy'n briodol.

[14] Rheoliad 63 ac Atodlen 7 Rheoliadau Llywodraeth Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005

## PWYLLGOR CWYNION

Mae'r pwyllgor hwn yn cael ei sefydlu i ystyried a gwneud penderfyniadau mewn perthynas â chwynion a dderbyniwyd, yn unol â gweithdrefnau cwynion yr ysgol.

**Aelodaeth**
Tri aelod o'r corff llywodraethu.[15] Gall disgybl-lywodraethwyr cyswllt fod yn aelodau'r pwyllgor hwn os nad yw'r broblem yn ymwneud ag aelod o staff na disgyblion unigol. Mae disgybl-lywodraethwyr cyswllt yn cael eu dosbarthu fel anlywodraethwyr at ddiben y pwyllgor hwn ac mae'n rhaid i'r corff llywodraethu benderfynu os ydynt yn cael pleidleisio.

**Anghymhwysiadau**
Y Pennaeth

**Cyfyngiadau ar unigolion sy'n cymryd rhan yn y gweithrediadau**
Unrhyw lywodraethwr lle efallai fod buddiant ariannol neu wrthdaro buddiannau[16]

**Ethol Cadeirydd**
Wedi'i benodi gan y corff llywodraethu neu wedi'i ethol gan y pwyllgor – i'w benderfynu gan y corff llywodraethu. Ni all aelodau staff a disgyblion cofrestredig yn yr ysgol fod yn Gadeirydd y pwyllgor hwn.

**Clerc**
Gall y corff llywodraeth benodi clerc i'r pwyllgor hwn. Gall fod yr unigolyn sy'n glerc i'r corff llywodraethu neu gall fod yn unigolyn gwahanol.

**Cworwm**
Cworwm y pwyllgor hwn fydd tri.

**Pwerau dirprwyedig**
Rhoddwyd pwerau dirprwyedig llawn i'r pwyllgor hwn gan y corff llywodraethu ar XXXX.

**Cyfarfodydd**
Bydd y pwyllgor yn cwrdd yn ôl yr angen.

Caiff cofnodion yr holl gyfarfodydd eu llunio gan y clerc neu'r unigolyn sy'n gweithredu fel clerc. Dylai unrhyw gofnodion sy'n ymwneud â gweithdrefnau cwyno gael eu diogelu'n ofalus a'u cadw'n gyfrinachol.

Caiff penderfyniadau'r pwyllgor eu cyflwyno gerbron y corff llywodraethu er gwybodaeth.

**Cylch gorchwyl**

- Adolygu'r Polisi Cwynion fel sy'n briodol a gwneud argymhellion i'r corff llywodraethu er mwyn iddo eu trafod a'u cadarnhau.
- Clywed sylwadau sy'n ymwneud â'r cwynion a wnaed.
- Gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud â'r gwŷn a hysbysu'r achwynydd o'r canlyniad.
- Ceisio cyngor proffesiynol gan yr awdurdod lleol, yr awdurdod esgobaethol ac eraill, yn ôl yr angen.
- Mynychu hyfforddiant perthnasol fel sy'n briodol.

---

[15] Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 011/2012 'Gweithdrefnau cwyno i gyrff llywodraethu'
[16] Rheoliad 63 ac Atodlen 7 Rheoliadau Llywodraeth Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005

## ADOLYGU DATBLYGIAD PROFFESIYNOL (ADP) Y PENNAETH

| **Diben** |
| --- |
| Caiff y pwyllgor hwn ei sefydlu i ymgymryd â phroses ADP y Pennaeth, yn unol â gweithdrefn ADP yr ysgol. |

**Aelodaeth**
O leiaf dau lywodraethwr wedi'u penodi gan y corff llywodraethu
Un neu ddau gynrychiolydd wedi'u penodi gan yr awdurdod lleol

Ar gyfer ysgolion â nodweddion crefyddol neu ysgol a gynorthwyir yn wirfoddol nad oes ganddi nodwedd grefyddol
O leiaf dau lywodraethwr wedi'u penodi gan y corff llywodraethu, y mae'n rhaid i un fod yn llywodraethwr sylfaen.
Un neu ddau gynrychiolydd wedi'u penodi gan yr awdurdod lleol.
Gall yr awdurdod esgobaethol hefyd benodi Partner ADP.

**Anghymwysiadau**
Y Pennaeth
Aelodau staff yr ysgol

**Cyfyngiadau ar unigolion sy'n cymryd rhan yn y gweithrediadau**
Unrhyw lywodraethwr lle gall fod buddiant ariannol neu wrthdaro buddiannau[17]

**Ethol Cadeirydd**
Wedi'i benodi gan y corff llywodraethu neu wedi'i ethol gan y pwyllgor – i'w benderfynu gan y corff llywodraethu.

**Clerc**
Gall y corff llywodraethu benodi clerc i'r pwyllgor hwn. Gall hwn fod yn unigolyn sy'n glerc i'r corff llywodraethu neu'n unigolyn gwahanol.

**Cworwm**
Mae'r cworwm ar gyfer y pwyllgor hwn yn dibynnu ar yr aelodaeth ond bydd angen o leiaf tri (o leiaf dau lywodraethwr).[18]

**Pwerau dirprwyedig**
Rhoddwyd pwerau dirprwyedig llawn gan y corff llywodraethu ar XXXX.

**Cyfarfodydd**
Bydd y pwyllgor yn cyfarfod yn ôl yr angen, ond o leiaf bob blwyddyn, i gyflawni eu rôl wrth reoli perfformiad y pennaeth.

Defnyddio cyfarfodydd i gefnogi'r pennaeth i gytuno ar flaenoriaethau, monitro a myfyrio ar eu cynnydd gan ddefnyddio'r cynllun datblygu proffesiynol (ADP)

Cytuno gyda'r pennaeth pryd a sut y bydd cymorth proffesiynol yn digwydd

Cwrdd i adolygu cynnydd y flwyddyn flaenorol a gosod blaenoriaethau datblygu newydd

**Cylch gorchwyl**
- Mynychu dysgu proffesiynol perthnasol ar y broses

[17] Rheoliad 63 ac Atodlen 7 Rheoliadau Llywodraeth Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005
[18] Rheoliad 7 Rheoliadau Arfarnu Athrawon Ysgol (Cymru) 2011

- Cefnogi'r pennaeth i nodi a chytuno ar flaenoriaethau, monitro a myfyrio ar eu cynnydd gan ddefnyddio'r cynllun datblygu proffesiynol (PDP).
- Defnyddiwch y broses i ddathlu cryfderau, cydnabod cynnydd tuag at nodau a hyrwyddo datblygiad pellach, mewn diwylliant o ymddiriedaeth a pharch i'r ddwy ochr
- Sicrhau bod y broses yn cyd-fynd â dysgu proffesiynol o ansawdd uchel a deialog broffesiynol barhaus, ffocws
- Sicrhau bod y broses yn seiliedig ar ymrwymiad a rennir i ddiwallu anghenion dysgwyr a chefnogi lles dysgwyr a staff.
- Sicrhau cyfrinachedd rhwng partneriaid adolygu datblygiad proffesiynol ac aelod unigol o staff pennaeth mewn perthynas â'r elfen benderfynu ffurfiol.
- Defnyddiwch y safonau proffesiynol fel fframwaith ar gyfer gwella parhaus.

## APELIADAU ADOLYGU DATBLYGIAD PROFFESIYNOL (ADP) Y PENNAETH

**Diben**
Caiff y pwyllgor hwn ei sefydlu i ystyried unrhyw apêl mewn perthynas ag arfarniad perfformiad y Pennaeth, yn unol â gweithdrefn ADP yr ysgol.

**Aelodaeth**
Cadeirydd y Corff Llywodraethu – oni bai ei fod wedi cymryd rhan yn yr broses AGP oedd yn destun yr apêl, yna bydd y corff llywodraethu'n penodi llywodraethwr nad yw wedi cymryd rhan yn yr arfarniad.
Un llywodraethwr arall sydd wedi'i benodi gan y corff llywodraethu.
Dau gynrychiolydd wedi'u penodi gan yr awdurdod lleol.

Ar gyfer ysgolion â nodweddion crefyddol neu ysgol a gynorthwyir yn wirfoddol nad oes ganddi nodwedd grefyddol:
Cadeirydd y Corff Llywodraethu – oni bai ei fod wedi cymryd rhan yn yr broses AGP a oedd yn destun yr apêl, yna bydd y corff llywodraethu'n penodi llywodraethwr nay w wedi cymryd rhan yn yr arfarniad.
Dau gynrychiolydd wedi'u penodi gan yr awdurdod lleol.
Gall yr awdurdod esgobaethol hefyd benodi Partner ADP.

**Anghymwysiadau**
Aelodau staff yn yr ysgol.

**Cyfyngiadau ar yr unigolion sy'n cymryd rhan yn y gweithrediadau**
Unrhyw lywodraethwr lle gall fod buddiannau ariannol neu wrthdaro buddiannau[19]

**Ethol Cadeirydd**
Wedi'i benodi gan y corff llywodraethu neu ei ethol gan y pwyllgor – i'w benderfynu gan y corff llywodraethu.

**Clerc**
Gall y corff llywodraethu benodi clerc i'r pwyllgor hwn. Gall hwn fod yr unigolyn sy'n glerc i'r corff llywodraethu neu'n unigolyn gwahanol.

**Cworwm**
Mae'r cworwm ar gyfer y pwyllgor hwn yn dibynnu ar yr aelodaeth ond bydd angen o leiaf tri.[20]

**Pwerau dirprwyedig**
Rhoddwyd pwerau dirprwyedig llawn ar gyfer penderfyniadau gan y corff llywodraethu ar XXXX.

**Cyfarfodydd**
Bydd y pwyllgor yn cwrdd yn ôl yr angen.

Caiff cofnodion o'r holl gyfarfodydd eu llunio gan y clerc neu'r unigolyn sy'n gweithredu fel clerc. Dylai unrhyw gofnodion sy'n ymwneud â gweithdrefnau rheoli perfformiad gael eu diogelu'n ofalus a'u cadw'n gyfrinachol.

Caiff penderfyniadau'r pwyllgor eu cyflwyno gerbron y corff llywodraethu llawn, er gwybodaeth.

[19] Rheoliad 63 ac Atodlen 7 Rheoliadau Llywodraeth Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005
[20] Rheoliad 7 Rheoliadau Arfarniad Athrawon Ysgol (Cymru) 2011

**Cylch gorchwyl**

- Ystyried unrhyw apeliadau yn erbyn penderfyniad a wnaed gan bwyllgor AGP broses y Pennaeth o ran perfformiad y Pennaeth, yn unol â gweithdrefn AGP yr ysgol.
- Ceisio cyngor proffesiynol gan yr awdurdod lleol, yr awdurdod esgobaethol neu eraill, yn ôl y angen.
- Mynychu dysgu proffesiynol perthnasol fel sy'n briodol.

## PWYLLGOR ADOLYGU TÂL

| **Diben** |
|---|
| Caiff y pwyllgor hwn ei sefydlu i adolygu tâl pob aelod o staff, dyfarnu datblygiadau fel sy'n briodol a chynghori am y canlyniadau yn briodol, yn unol â Pholisi Tâl yr ysgol. |

**Aelodaeth**
Y niferoedd i'w cytuno gan y corff llywodraethu ond mae'n arfer da cael o leiaf tri aelod o'r corff llywodraethu.
Y Pennaeth mewn capasiti cynghori (ac eithrio wrth drafod tâl y Pennaeth)

**Anghymwysiadau**
Aelodau staff yr ysgol
Disgybl-lywodraethwyr cyswllt

**Cyfyngiadau ar unigolion sy'n cymryd rhan mewn gweithrediadau**
Unrhyw lywodraethwr lle gall fod buddiant ariannol neu wrthdaro buddiannau[21]

**Ethol Cadeirydd**
Wedi'i benodi gan y corff llywodraethu neu wedi'i ethol gan y pwyllgor – i'w benderfynu gan y corff llywodraethu.

**Clerc**
Gall y corff llywodraethu benodi clerc i'r pwyllgor hwn. Gall hwn fod yr unigolyn sy'n glerc i'r corff llywodraethu neu'n unigolyn gwahanol.

**Cworwm**
Cworwm y pwyllgor hwn fydd tri llywodraethwr.

**Pwerau dirprwyedig**
Rhoddwyd pwerau dirprwyedig llawn i'r pwyllgor hwn gan y corff llywodraethu ar XXXX.

**Cyfarfodydd**
Bydd y pwyllgor yn cwrdd o leiaf yn flynyddol. Cynhelir cyfarfodydd ychwanegol yn ôl y gofyn.

Caiff cofnodion y cyfarfodydd eu llunio gan y clerc neu'r unigolyn sy'n gweithredu fel clerc. Dylai unrhyw gofnodion sy'n ymwneud â'r Pwyllgor Adolygu Tâl gael eu diogelu'n ofalus a'u cadw'n gyfrinachol.

Caiff penderfyniadau'r pwyllgor hwn eu cyflwyno gerbron y corff llywodraethu llawn, fel eitem gyfrinachol, er gwybodaeth, pan fydd y broses apelio wedi'i chwblhau neu fod y dyddiad cau i apelio wedi mynd heibio ac ni dderbyniwyd unrhyw apêl.

**Cylch gorchwyl**

- Adolygu, yn flynyddol, dâl pob athro a gyflogir gan yr ysgol, dyfarnu datblygiad tâl yn unol â Pholisi Tâl yr ysgol a'u cynghori am y canlyniad yn briodol (sicrhau bod yr unigolyn yn derbyn yr hawl berthnasol i apelio)
- Gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud â thâl i staff cefnogi pan fo angen, yn unol â Pholisi Tâl yr ysgol.
- Cofnodi'n glir, gan nodi rhesymau dros yr holl benderfyniadau, ac adrodd y penderfyniadau hyn i'r corff llywodraethu llawn nesaf fel eitem gyfrinachol i'w chadarnhau.
- Ceisio cyngor proffesiynol gan yr awdurdod lleol, yr awdurdod esgobaethol neu eraill, yn ôl yr angen.

[21] Rheoliad 63 ac Atodlen 7 Rheoliadau Llywodraeth Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005

- Mynychu dysgu proffesiynol perthnasol fel sy’n briodol.

## PWYLLGOR APELIADAU'R ADOLYGIAD TÂL

**Diben**
Caiff y pwyllgor hen ei sefydlu i ystyried unrhyw apeliadau o ran tâl staff yn unol â Pholisi Tâl yr ysgol

**Aelodaeth**
Y niferoedd i'w cytuno gan y corff llywodraethu ond mae'n arfer da cael o leiaf tri aelod o'r corff llywodraethu.
Y Pennaeth mewn capasiti cynghori (ac eithrio wrth drafod tâl y Pennaeth)

**Anghymhwysiad**
Aelodau staff yr ysgol
Disgybl-lywodraethwyr cyswllt

**Cyfyngiadau ar unigolion sy'n cymryd rhan mewn gweithrediadau**
Unrhyw lywodraethwr lle gall fod buddiant ariannol neu wrthdaro buddiannau[10]

**Ethol Cadeirydd**
Wedi'i benodi gan y corff llywodraethu neu wedi'i ethol gan y pwyllgor – i'w benderfynu gan y corff llywodraethu.

**Clerc**
Gall y corff llywodraethu benodi clerc i'r pwyllgor hwn. Gall hwn fod yr unigolyn sy'n glerc i'r corff llywodraethu neu'n unigolyn gwahanol.

**Cworwm**
Cworwm y pwyllgor hwn fydd tri llywodraethwr.

**Pwerau dirprwyedig**
Rhoddwyd pwerau dirprwyedig llawn i'r pwyllgor hwn gan y corff llywodraethu ar XXXX.

**Cyfarfodydd**
Bydd y pwyllgor yn cwrdd yn ôl y gofyn.

Caiff cofnodion y cyfarfodydd eu llunio gan y clerc neu'r unigolyn sy'n gweithredu fel clerc. Dylai unrhyw gofnodion sy'n ymwneud â'r Pwyllgor Apeliadau Adolygu Tâl gael eu diogelu'n ofalus a'u cadw'n gyfrinachol.

Caiff penderfyniadau'r pwyllgor hwn eu cyflwyno gerbron y corff llywodraethu llawn, fel eitem gyfrinachol, er gwybodaeth.

**Cylch gorchwyl**

- Ystyried unrhyw benderfyniad ar apeliadau mewn perthynas â phenderfyniadau tâl yn unol â pholisi tâl yr ysgol
  - Cofnodi'n glir, gan nodi rhesymau dros yr holl benderfyniadau, ac adrodd y penderfyniadau hyn i'r corff llywodraethu llawn nesaf fel eitem gyfrinachol i'w chadarnhau.
  - Ceisio cyngor proffesiynol gan yr awdurdod lleol, yr awdurdod esgobaethol neu eraill, yn ôl yr angen.
  - Mynychu dysgu proffesiynol perthnasol fel sy'n briodol.

## PANEL DETHOL AR GYFER PENAETHIAID A DIRPRWY BENAETHIAID

**Diben**
Caiff y panel hwn ei sefydlu i ymgymryd â'r broses recriwtio a dethol ar gyfer y swydd Pennaeth a/neu Ddirprwy Bennaeth.

**Aelodaeth**
Rhwng tri a saith aelod o'r corff llywodraethu (gall y Pennaeth fod yn aelod ar gyfer swyddi Dirprwy Bennaeth). Gall y rheiny nad ydynt yn llywodraethwyr fod yn aelodau o'r panel dethol ac mae'n rhaid i'r corff llywodraethu benderfynu a fydd yr unigolion hynny'n cael pleidleisio. Mae'n rhaid i fwyafrif aelodau'r panel fod yn llywodraethwyr.

Gall ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol ddewis cynnwys y corff llywodraethu cyfan yn y broses ddethol ar gyfer Penaethiaid a Dirprwy benaethiaid yn unol â Rheoliad 34 Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006.[22]

**Anghymhwysiad**
Ni all y Pennaeth gymryd rhan yn y broses benodi ar gyfer ei olynydd.[23]
Ni all y Dirprwy Bennaeth gymryd rhan yn y broses benodi ar gyfer ei olynydd.
Disgybl-lywodraethwyr cyswllt.

**Cyfyngiadau ar unigolion sy'n cymryd rhan yn y gweithrediadau**
Llywodraethwyr staff ac athrawon lle bod ganddynt fuddiant ariannol
Unrhyw lywodraethwr lle gall fod gwrthdaro buddiannau[24]

**Ethol Cadeirydd**
Yn cael ei benodi gan y panel dethol. Ni all aelodau staff fod yn Gadeirydd pwyllgor.

**Clerc**
Dylai'r corff llywodraethu benodi clerc i'r panel. Fel arfer, llywodraethwr ar y panel yw hen a fydd yn cael ei gefnogi gan ymgynghorydd AD sy'n bresennol y gofnodi'r penderfyniad terfynol.

**Cworwm**
Dylai holl aelodau'r panel fod ar gael i fynychu'r cyfarfod llunio rhestr fer a'r broses ddethol.

**Pwerau dirprwyedig**
Dylai'r holl benderfyniadau gan y panel hwn gael eu cyflwyno gerbron y corff llywodraethu llawn i'w cadarnhau.

**Cyfarfodydd**
Bydd y pwyllgor yn cwrdd yn ôl yr angen.

Dylai unrhyw gofnodion sy'n ymwneud â'r broses benodi gael eu cadw'n ddiogel yn ofalus a'u cadw'n gyfrinachol.

Bydd penderfyniad y pwyllgor yn cael ei gyflwyno gerbron y corff llywodraethu llawn er mwyn ei gadarnhau.

**Cylch gorchwyl**

- Cytuno ar fanyleb person, disgrifiad swydd manwl a hysbyseb ar gyfer y swydd (efallai na fydd yr hysbyseb yn angenrheidiol os yw ysgolion yn cau a bod ysgol newydd yn cael ei chreu).

[22] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2006/873/regulation/34/made
[23] https://www.legislation.gov.uk/wsi/2005/2914/schedule/7/made
[24]

- Llunio rhestr fer o ymgeisiwyd addas yn unol â'r fanyleb person, y fanyleb swydd a'r meini prawf hanfodol.
- Cytuno ar ddyddiadau cyfweliadau a fformat y broses ddethol, gan gynnwys tasgau, cwestiynau a'r dull sgorio i'w ddefnyddio.
- Bod yn llawn ymwybodol o'r broses gytunedig ranbarthol ar gyfer penodi Pennaeth a Dirprwy Bennaeth.
- Ymgymryd â'r broses gyfweld a dethol gydag ymgeiswyr ar y rhestr fer a phenderfynu ar yr ymgeisydd ffafriol. Ceisio cyngor proffesiynol gan yr awdurdod lleol, yr awdurdod esgobaethol ac eraill, yn ôl yr angen.
- Argymell i'r corff llywodraethu llawn benodiad yr ymgeisydd ffafriol, lle yr ystyrir ei fod yn briodol.
- Mynychu dysgu proffesiynol perthnasol fel y bo'n briodol.

## PWYLLGOR GALLUEDD

**Diben**
Caiff y panel hwn ei sefydlu i ystyried unrhyw broblemau o ran galluedd Pennaeth, yn unol â gweithdrefn galluedd yr ysgol

**Aelodaeth**
Y niferoedd i gael eu cytuno gan y corff llywodraethu ond argymhellir bod o leiaf tri aelod o'r corff llywodraethu.

**Anghymhwysiad**
Y Pennaeth
Disgybl-lywodraethwyr cyswllt

**Cyfyngiadau ar unigolion sy'n cymryd rhan yn y gweithrediadau**
- Ni ddylai Cadeirydd y corff llywodraethu fod yn aelod o'r panel hwn oherwydd ei fod wedi cymryd rhan mewn cam blaenorol yn y weithdrefn galluedd.
- Unrhyw lywodraethwr y mae ei farn wedi'i lygru neu sydd â buddiant neu ymrwymiad uniongyrchol yn yr achos dan sylw.
- Llywodraethwyr sy'n athrawon a staff ac unrhyw aelod arall o staff sy'n llywodraethwr.[25]

**Ethol Cadeirydd**
Yn cael ei benodi gan y corff llywodraethu neu ei ethol gan y panel – i'w benderfynu gan y corff llywodraethu.

**Cworwm**
Y cworwm ar gyfer y panel hwn yw tri llywodraethwr.

**Pwerau dirprwyedig**
Rhoddwyd pwerau dirprwyedig llawn ar gyfer penderfyniadau i'w panel hwn gan y corff llywodraethu ar XXXX.

**Cyfarfodydd**
Bydd y panel yn cwrdd yn ôl yr angen.

Caiff cofnodion o'r holl gyfarfodydd eu llunio a'u cadw. Dylai unrhyw gofnodion sy'n ymwneud â gweithdrefnau galluedd gael eu diogelu'n ofalus a'u cadw'n gyfrinachol.

Bydd penderfyniadau'r panel yn cael eu cyflwyno gerbron y corff llywodraethu llawn, fel eitem gyfrinachol, er gwybodaeth, pan fydd y broses apelio wedi'i chwblhau neu pan fydd y dyddiad cau ar gyfer derbyn apeliadau wedi mynd heibio ac ni dderbyniwyd unrhyw apêl.

**Cylch gorchwyl**
- Penderfynu a ddylai camau ffurfiol y weithdrefn galluedd gael eu gweithredu
- Cychwyn archwiliad ffurfiol y materion a chymryd camau gweithredu priodol, yn unol â gweithdrefn galluedd yr ysgol, wrth reoli perfformiad anfoddhaol.
- Penodi, lle y bo'n briodol, aelodau dynodedig o'r awdurdod lleol neu staff y consortiwm i archwilio'r materion a darparu cymorth priodol.
- Sicrhau bod rhaglen briodol o gymorth ar waith i Bennaeth yr ystyrir bod ei berfformiad yn anfoddhaol.
- Ceisio cyngor a chymorth yr awdurdod lleol (neu'r awdurdod esgobaethol neu ddarparwr cymorth adnoddau dynol) ar bob cam o'r weithdrefn.
- Mynychu dysgu proffesiynol perthnasol fel sy'n briodol.

[25] Rheoliad 63 ac Atodlen 7 Rheoliadau Llywodraeth Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005

## APELIADAU GALLUEDD

| **Diben** |
| --- |
| Ystyried unrhyw apeliadau yn erbyn penderfyniadau a wnaed gan y Pennaeth neu'r Pwyllgor Galluedd, yn unol â gweithdrefn galluedd yr ysgol |

**Aelodaeth**
Y niferoedd i gael eu cytuno gan y corff llywodraethu ond argymhellir bod o leiaf tri aelod o'r corff llywodraethu.

**Anghymhwysiad**
Llywodraethwyr sy'n rhan o'r pwyllgor galloedd cyntaf sy'n ymwneud â'r apêl.

**Cyfyngiadau ar unigolion sy'n cymryd rhan yn y gweithrediadau**
- Ni ddylai Cadeirydd y corff llywodraethu fel arfer fod yn aelod o'r pwyllgor hwn oherwydd y tebygolrwydd o wybodaeth flaenorol neu ymrwymiad ar gam cynt o'r weithdrefn galluedd.
- Unrhyw lywodraethwr y gall ei farn fod wedi'i llygru neu fod ganddo ddiddordeb neu ymgysylltiad unongyrchol yn yr achos dan sylw[26].
- Y Pennaeth (oni bai fod y Pennaeth yn cael ei alw i roi tystiolaeth fel y rheolwr dynodedig neu os mai ef yw testun y weithdrefn galluedd).
- Llywodraethwyr sy'n athrawon neu'n aelodau staff ac unrhyw aelod arall o staff a allai fod yn llywodraethwr.

**Ethol Cadeirydd**
Yn cael ei benodi gan y corff llywodraethu neu ei ethol gan y pwyllgor – i'w benderfynu gan y corff llywodraethu.

**Cworwm**
Y cworwm ar gyfer y panwl hwn yw tri llywodraethwr.

**Pwerau dirprwyedig**
Rhoddwyd pwerau dirprwyedig llawn gan y corff llywodraethu ar XXXX.

**Cyfarfodydd**
Bydd y pwyllgor yn cwrdd yn ôl yr angen.

Caiff cofnodion yr holl gyfarfodydd eu llunio a'u cadw. Dylai unrhyw gofnodion sy'n ymwneud â gweithdrefnau galluedd gael eu diogelu'n ofalus a'u cadw'n gyfrinachol.

Caiff penderfyniad y pwyllgor ei gyflwyno gerbron y corff llywodraeth llawn, fel eitem gyfrinachol, er gwybodaeth.

**Cylch gorchwyl**

- Ystyried a gwneud penderfyniadau ar apeliadau yn erbyn penderfyniadau i ddyrannu cosb dan y weithdrefn galluedd, a wnaed gan y Pennaeth neu'r pwyllgor galluedd, yn unol â gweithdrefn galluedd yrysgol. Sicrhau, lle y bo'n briodol, raglan briodol o gymorth ar gyfer Pennaeth yr yrtyrir bod ei berfformiad yn anfoddhaol.
- Ceisio cyngor a chymorth yr awdurdod lleol (neu'r awdurdod esgobaethol neu ddarparwr cymorth adnoddau dynol) ar bob cam o'r weithdrefn.
- Mynychu dysgu proffesiynol perthnasol fel sy'n briodol.

[26] Rheoliad 63 ac Atodlen 7 Rheoliadau Llywodraeth Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005

**PWYLLGOR DISWYDDO (Blaenau Gwent yn unig)**

**Diben**
Caiff y panel hwn ei sefydlu er mwyn ystyried canlyniad unrhyw broses ymgynghori ar ddiswyddo a, lle y bo angen, wneud penderfyniadau sy'n ymwneud â diswyddo gwirfoddol a dethol unigolion ar gyfer diswyddo gorfodol, yn unol â gweithdrefn yr ysgol.

**Aelodaeth**
Tri aelod o'r corff llywodraethu.

**Anghymhwysiad**
Y Pennaeth
Disgybl-lywodraethwyr cyswllt

**Cyfyngiadau ar unigolion sy'n cymryd rhan yn y gweithrediadau**
Unrhyw aelod o'r panel y gall ei farn fod wedi'i lygru neu sydd â buddiant uniongyrchol neu ymgysylltiad â'r achos dan sylw
Llywodraethwyr sy'n athrawon a staff ac unrhyw aelodau eraill o staff sy'n llywodraethwyr[27]

**Ethol Cadeirydd**
Wedi'i benodi gan y corff llywodraethu neu ei ethol gan y panel – i'w benderfynu gan y corff llywodraethu.
**Cworwm**
Cworwm y panel hwn fydd tri llywodraethwr.

**Pwerau dirprwyedig**
Rhoddwyd pwerau dirprwyedig llawn i'r pwyllgor hwn gan y corff llywodraethu ar XXXX.

**Cyfarfodydd**
Bydd y pwyllgor yn cwrdd yn ôl yr angen.

Caiff cofnodion yr holl gyfarfodydd eu llunio a'u cadw. Dylai cofnodion sy'n ymwneud â gweithdrefnau diswyddo gael eu diogelu'n ofalus a'u cadw'n gyfrinachol.

Caiff penderfyniad y pwyllgor ei gyflwyno gerbron y corff llywodraethu llawn, fel eitem gyfrinachol, er gwybodaeth, pan fydd y broses apelio wedi'i chwblhau neu fod y dyddiad cau ar gyfer yr apêl wedi mynd heibio ac ni dderbyniwyd unrhyw apêl.

**Cylch gorchwyl**
- Ystyried a gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud â cheisiadau am ddiswyddo gwirfoddol
- Ymgymryd ag unrhyw broses ddethol diswyddiad, lle y bo angen, yn unol â gweithdrefn yr ysgol
- Clywed sylwadau gan staff sy'n ymwneud â'u detholiad ar gyfer diswyddo
- Ceisio cyngor proffesiynol gan yr awdurdod lleol, yr awdurdod esgobaethol ac eraill, yn ôl yr angen
- Mynychu dysgu proffesiynol perthnasol fel sy'n briodol

27

## PWYLLGOR APELIADAU DISWYDDO (Blaenau Gwent yn unig )

**Diben**
Caiff y panel hwn ei sefydlu i ystyried unrhyw apeliadau a wnaed gan y pwyllgor diswyddo, yn unol â gweithdrefn yr ysgol

**Aelodaeth**
O leiaf yr un nifer o lywodraethwyr â'r Pwyllgor Diswyddo ond gall fod mwy.

**Anghymhwysiad**
Y Pennaeth
Disgybl-lywodraethwyr cyswllt
Llywodraethwyr sy'n ymwneud â phenderfyniad y pwyllgor diswyddo sy'n ymwneud â'r apêl.

**Cyfyngiadau ar unigolion sy'n cymryd rhan yn y gweithrediadau**
Unrhyw aelod o'r panel y gall ei farn fod wedi'i lygru neu sydd â buddiant uniongyrchol neu ymgysylltiad â'r achos dan sylw
Llywodraethwyr sy'n athrawon a staff ac unrhyw aelodau eraill o staff sy'n llywodraethwyr[28]

**Ethol Cadeirydd**
Wedi'i benodi gan y corff llywodraethu neu ei ethol gan y panel – i'w benderfynu gan y corff llywodraethu.
**Cworwm**
Cworwm y panel hwn fydd tri llywodraethwr.

**Pwerau dirprwyedig**
Rhoddwyd pwerau dirprwyedig llawn i'r pwyllgor hwn gan y corff llywodraethu ar XXXX.

**Cyfarfodydd**
Bydd y pwyllgor yn cwrdd yn ôl yr angen.

Caiff cofnodion yr holl gyfarfodydd eu llunio a'u cadw. Dylai cofnodion sy'n ymwneud â gweithdrefnau diswyddo gael eu diogelu'n ofalus a'u cadw'n gyfrinachol.

Caiff penderfyniad y pwyllgor ei gyflwyno gerbron y corff llywodraethu llawn, fel eitem gyfrinachol, er gwybodaeth.

**Cylch gorchwyl**
- Ystyried a gwneud penderfyniadau ar apeliadau sy'n ymwneud â phenderfyniadau gan y pwyllgor diswyddo o ganlyniad i'r broses ddethol diswyddo.
- Ceisio cyngor proffesiynol gan yr awdurdod lleol, yr awdurdod esgobaethol ac eraill, yn ôl yr angen
- Mynychu dysgu proffesiynol perthnasol fel sy'n briodol

---
28

## Pwyllgor Ceisiadau Staff

(lle nad yw'r cyfrifoldeb am benderfyniadau yn cael ei ddirprwyo i'r pennaeth)

**Cyfrifoldeb:** Clywed cais gan aelodau staff unigol, nad yw'n dod dan gylch gwaith pwyllgorau eraill, lle gall gwrthod gynnwys apêl h.y. ceisiadau am weithio hyblyg, cyfnod o absenoldeb ac ati.

**Statws**: Anstatudol – pwerau dirprwyedig.

**Aelodaeth:** O leiaf tri llywodraethwr. Ni all y Pennaeth fod yn aelod.

Aelodau ychwanegol nad ydynt yn llywodraethwyr ac nad ydynt yn pleidleisio oni bai y cytunir ar hynny gan y corff llywodraethu.

**Wrth gefn:** Unrhyw lywodraethwr cymwys i weithredu fel aelod wrth gefn.

**Anghymhwysiad:** Llywodraethwyr sy'n staff ac athrawon, lle mae ganddynt fuddiant

**Cyfyngiadau:** Unrhyw lywodraethwr lle gall fod buddiant ariannol neu wrthdaro buddiannau.

**Cadeirydd:** I'w enwi gan y corff llywodraethu neu ei ethol yng nghyfarfod cyntaf y pwyllgor, fel a benderfynir gan y corff llywodraethu. Os nad yw cadeirydd y pwyllgor ar gael, bydd y pwyllgor yn ethol cadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwnnw.

**Clerc:** I'w benodi gan y corff llywodraethu.

**Cworwm:** Tri llywodraethwr sy'n pleidleisio neu 50% o'r aelodaeth, p'un bynnag sydd fwyaf.

**Pleidleisio:** Mwyafrif.

**Cyfarfodydd:** Cwrdd yn ôl yr angen.

**Cofnodion:** Bydd cadeirydd y pwyllgor yn adrodd yn ôl ar lafar i'r corff llywodraethu bod y pwyllgor wedi defnyddio'i swyddogaeth ddirprwyedig, gan gynnwys unrhyw benderfyniadau a wnaed ac unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd (dim ond ar ddiwedd unrhyw broses apelio, neu'r cyfnod y bydd apêl yn dod i ben).

### Cylch gorchwyl

1. Ystyried ceisiadau gan staff nad ydynt yn dod o fewn cylch gwaith pwyllgorau eraill, lle gallai gwrthod gynnwys apêl gan gynnwys ceisiadau am weithio hyblyg, rhannu swydd, cyfnod absenoldeb, yn unol â gweithdrefnau'r ysgol. Bydd ceisiadau i'r pwyllgor hwn yn unol â'r gweithdrefnau a fabwysiadwyd gan y corff llywodraethu, a allai benderfynu mai'r pennaeth fydd yn gwneud y penderfyniad yn y lle cyntaf.
2. Mynychu dysgu proffesiynol perthnasol, fel sy'n briodol.

### Pwerau dirprwyedig

Ystyried ceisiadau staff a gwneud penderfyniadau cychwynnol yn unol â'r gweithdrefnau a fabwysiadwyd gan y corff llywodraethu.

# Pwyllgor Apeliadau Ceisiadau Staff

(lle nad yw'r cyfrifoldeb am benderfyniadauyn cael ei ddirprwyo i'r pennaeth)

**Cyfrifoldeb:** Clywed apeliadau gan aelodau staff unigol, nad yw'n dod dan gylch gwaith pwyllgorau eraill, lle gall gwrthod gynnwys apêl h.y. ceisiadau am weithio hyblyg, cyfnod o absenoldeb ac ati.

**Statws**: Anstatudol – pwerau dirprwyedig.

**Aelodaeth:** O leiaf tri llywodraethwr. Ni all y Pennaeth fod yn aelod.

Aelodau ychwanegol nad ydynt yn llywodraethwyr ac nad ydynt yn pleidleisio oni bai y cytunir ar hynny gan y corff llywodraethu.

**Wrth gefn:** Unrhyw lywodraethwr cymwys i weithredu fel aelod wrth gefn.

**Anghymhwysiad:** Llywodraethwyr sy'n staff ac athrawon, lle mae ganddynt fuddiant

**Cyfyngiadau:** Unrhyw lywodraethwr lle gall fod buddiant ariannol neu wrthdaro buddiannau.

**Cadeirydd:** I'w enwi gan y corff llywodraethu neu ei ethol yng nghyfarfod cyntaf y pwyllgor, fel a benderfynir gan y corff llywodraethu. Os nad yw cadeirydd y pwyllgor ar gael, bydd y pwyllgor yn ethol cadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwnnw.

**Clerc:** I'w benodi gan y corff llywodraethu.

**Cworwm:** Tri llywodraethwr sy'n pleidleisio neu 50% o'r aelodaeth, p'un bynnag sydd fwyaf.

**Pleidleisio:** Mwyafrif.

**Cyfarfodydd:** Cwrdd yn ôl yr angen.

**Cofnodion:** Bydd cadeirydd y pwyllgor yn adrodd yn ôl ar lafar i'r corff llywodraethu bod y pwyllgor wedi defnyddio'i swyddogaeth ddirprwyedig, gan gynnwys unrhyw benderfyniadau a wnaed ac unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd (dim ond ar ddiwedd unrhyw broses apelio, neu'r cyfnod y bydd apêl yn dod i ben).

**Cylch gorchwyl**

3. Ystyried ceisiadau gan staff nad ydynt yn dod o fewn cylch gwaith pwyllgorau eraill, lle gallai gwrthod gynnwys apêl gan gynnwys ceisiadau am weithio hyblyg, rhannu swydd, cyfnod absenoldeb, yn unol â gweithdrefnau'r ysgol. Bydd ceisiadau i'r pwyllgpr hwn yn unol â'r gweithdrefnau a fabwysiadwyd gan y corff llywodraethu, a allai benderfynu mai'r pennaeth fydd yn gwneud y penderfyniad yn y lle cyntaf.
4. Mynychu dysgu proffesiynol perthnasol, fel sy'n briodol.

**Pwerau dirprwyedig**

Ystyried ceisiadau staff a gwneud penderfyniadau cychwynnol yn unol â'r gweithdrefnau a fabwysiadwyd gan y corff llywodraethu.

## Cylch gorchwyl model ar gyfer pwyllgorau anstatudol

Model awgrymedig yn unig yw hwn. Mae gan gyrff llywodraethu unigol yw hawl i ddewis y model sy’n diwallu eu hanghenion ond mae’n rhaid sicrhau bod gan bob pwyllgor gylch gorchwyl clir.

Gall agweddau ar fonitro a gwneud penderfyniadau groesi i waith pwyllgorau eraill. Gall fod yn fuddiol cael trafodaethau rhwng cadeiryddion pwyllgorau neu’r rheiny sy’n gwneud argymhellion i gyrff llywodraethu llawn i sicrhau ystyriaeth lawn o agwedd.

## Dysgu (Arolwg Estyn Maes 1)

Mae cylch gwaith y pwyllgor hwn yn cynnwys monitro a gwerthuso'r ddarpariaeth Addysgu a dysgu yn yr ysgol. Bydd y pwyllgor yn adolygu ac yn monitro Polisi'r Cwricwlwm ac unrhyw bolisi perthnasol arall (e.e. Polisi Asesu, polisi ar addysg rhyw, cydaddoli ac addysg grefyddol) fel y penderfynir gan y corff llywodraethu ac yn gwneud argymhellion i'r corff llywodraethu llawn ar gyfer trafodaeth a chadarnhau.

Mewn cydweithrediad ag aelodau staff, i ddarparu gwybodaeth am sut mae'r cwricwlwm yn cael ei addysgu, ei werthuso a'i adnoddau.

Bydd y pwyllgor yn ceisio'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt gan yr ysgol, yr awdurdod lleol neu asiantaethau allanol eraill, mewn perthynas â chanlyniadau disgyblion i fonitro, cefnogi a herio gwelliant a chynnydd ysgolion yn effeithlon.

**CWORWM:** argymell 5 (ond yn agored i bob llywodraethwr)

Cynorthwyo'r pennaeth a'r corff llywodraethu i ystyried monitro a gwerthuso:

- A yw cyflawniad disgyblion cystal ag y byddem yn ei ddisgwyl fel arfer?
- A yw disgyblion yn gwneud cynnydd annigonol wrth gaffael gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau?
- A oes cyfran uchel o addysgu aneffeithiol?
- Ydy disgwyliadau athrawon o ran cyrhaeddiad disgyblion yn rhy isel?
- A oes gan ddisgyblion ddim cymhelliant ac arddangos agweddau negyddol at ddysgu?
- A yw cyfrannau sylweddol o ddisgyblion neu grŵp penodol o ddisgyblion yn mynychu'n wael?
- A yw'r cwricwlwm yn methu â darparu profiadau dysgu sy'n ennyn diddordeb disgyblion?

Herio unrhyw feysydd o danberfformio a nodwyd, gan sicrhau bod strategaethau addas ar waith i fynd i'r afael â'r materion hyn.

I gynorthwyo i ddatblygu, hunanwerthuso ysgolion a brosesir ac i helpu i nodi meysydd ar gyfer cynllun datblygu'r ysgol a sicrhau bod y corff llywodraethu yn derbyn adroddiadau cynnydd rheolaidd.

Mynychu dysgu proffesiynol perthnasol, fel y bo'n briodol.

## Lles gan gynnwys gofal, cymorth ac arweiniad (Arolwg Estyn Maes 2)

**CWORWM**: argymhellir 5 (but open to all governors)

Cylch gorchwyl y pwyllgor hwn yw monitro a gwerthuso lles, gofal, cymorth ac arweiniad a ddarperir yn yr ysgol. Gweithio gyda’r pennaeth i ddarparu arweiniad i’r corff llywodraethu ar flaenoriaethau a materion sy’n ymwneud â lles bugeiliol ac ysbrydol staff a disgyblion, yn ogystal â chysylltiadau â’r gymuned ehangach.

Adolygu a monitro’r polisïau canlynol:

- Presenoldeb
- Ymddygiad (gan gynnwys gwrth-fwlio)
- Cydlyniad cymunedol
- Cydraddoldeb
- Bwyta’n iach
- Gwaith cartref
- Diogelu
- Plant sy’n Derbyn Gofal

Monitro a gwerthuso

- Cyflawniad disgyblion mewn perthynas â'r disgwyliadau
- Cynnydd disgyblion wrth gaffael gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau
- Adborth gan arweinwyr ysgolion ar ansawdd yr addysgu a disgwyliadau athrawon disgyblion
- Adborth gan arweinwyr ar gymhelliant ac agweddau disgyblion tuag at ddysgu
- Cyflawni grwpiau penodol o ddisgyblion
- Y cwricwlwm i sicrhau bod profiadau dysgu yn ennyn diddordeb disgyblion
- Lefelau presenoldeb pob disgybl, gan gynnwys gwahanol grwpiau o ddisgyblion

Casglu barn rhanddeiliaid (ymgysylltiad rhieni a’r gymuned) ac adrodd ar y rhain, er mwyn i ganlyniadau gael eu defnyddio’n effeithiol i lywio cynllunio.

Gweithio gyda’r pennaeth i lunio Polisi Cyhoeddusrwydd a Marchnata.

Ceisio cyngor proffesiynol gan yr awdurdod lleol, yr awdurdod esgobaethol ac eraill, yn ôl yr angen.

Mynychu hyfforddiant addas, lle y bo’n briodol.

# Profiadau Dysgu ac Addysgu (Arolwg Estyn maes 3)

**CWORWM:** argymhellir 5 (Ar agor i bob llywodraethwr)

TMae cylch gwaith y pwyllgor hwn yn cynnwys pob maes cyllid, safle a phersonél y mae'r corff llywodraethu yn gyfrifol amdanynt. Prif gyfrifoldebau'r pwyllgor yw sicrhau dyraniad a rheolaeth briodol o arian a ddirprwyir i'r ysgol o dan y Cynllun ar gyfer Ariannu Ysgolion, cyfrifoldeb am faterion iechyd a diogelwch yn yr ysgol a phenodi staff a strwythur staffio.

Mae gan y pwyllgor rôl hefyd o ran monitro a gwerthuso:

- Effaith arweinwyr ar gyflawni cynnydd clir a pharhaus?
- Effaith y llywodraethwyr ar ddwyn yr ysgol i gyfrif gyda digon o gadernid (Hunanwerthusiad Llywodraethwyr)
- Prosesau hunanwerthuso i sicrhau bod ganddynt gywirdeb a thrylwyredd, mewn perthynas â chynnydd disgyblion ac ansawdd yr addysgu
- Eglurder a chywirdeb prosesau cynllunio gwella i sicrhau eu bod yn effeithiol wrth sicrhau gwelliant
- Yr effaith mae arweinwyr yn ei chael wrth fynd i'r afael â gwendidau pwysig mewn perfformiad
- Mae rheoli adnoddau a llety yn cael effaith gadarnhaol ar gynnydd addysgol

**Cyllid**
Sicrhau bod yr ysgol yn gweithredu o fewn rheoliadau'r awdurdod lleol.
Cyflwyno cyllideb flynyddol ddrafft i'r corff llywodraethu llawn i'w hystyried bob blwyddyn.
Darparu arweiniad a chymorth i'r pennaeth a'r corff llywodraethu ar yr holl faterion sy'n ymwneud â chyllidebu ac ariannu.
Sicrhau bod cynllun datblygu'r ysgol yn cael ei gostio'n llawn a bod darpariaeth ariannol ar gael yn y gyllideb i dalu'r costau hyn
Monitro'r canlynol yn rheolaidd:

- incwm a gwariant
- yr holl agweddau ar ariannu grant
- lefelau staffio yn unol â'r gyllideb
- tueddiadau yn niferoedd y disgyblion i asesu'r effaith ar ddyraniad y gyllideb
- gwariant gyda golwg i gyflawni gwerth gorau

Penderfynu ar y ddirprwyaeth ariannol gan y corff llywodraethu llawn i'r pennaeth.
Darparu unrhyw wybodaeth ariannol mae ei hangen ar y Pwyllgor Disgyblu a Diswyddo Staff i wneud ei swyddogaethau.

**Pwerau dirprwyedig**
Drafftio'r gyllideb yn unol â'r blaenoriaethau a nodir yn y cynlluniau datblygu/gwella ysgol.
Cytuno ar hawliau trosglwyddo arian rhwng penawdau cyllidebol, i'w adrodd i'r corff llywodraethu llawn nesaf.
Penderfynu ar y Polisi Llogi a Chodi Tâl ar gyfer defnyddwyr eraill adeiladau a thir yr ysgol.
Rheoli prosesau tendro a dyfarnu contractau gyda phwyllgorau perthnasol eraill.
Ystyried y cytundeb lefel gwasanaeth a'r contractau mewn ymgynghoriad â phwyllgorau priodol.
Sicrhau bod archwiliad blyyddol o gronfa'r ysgol, wedi'i ymgymryd gan unigolyn anniynnol, a sicrhau bod canlyniadau'r archwiliad yn cael eu hadrodd yn flynyddol i'r corff llywodraethu llawn.
Paratoi a chytuno ar ddatganiad ariannol i'w gynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol i Rieni.

**Materion recriwtio a staffio**
Ystyried a gwneud argymhellion i'r corff llywodraethu, canllawiau a deddfwriaeth sy'n ymwneud â materion personél, wedi'i gefnogi gan ymgynghorwyr AD yr ALl.
Derbyn adroddiadau gan y pennaeth ar reolaeth sefydliad staffio'r ysgol ac ar faterion personél cyffredinol - ni ddylai bod unrhyw gyfeiriad at aelodau staff unigol er mwyn osgoi llygru barn neu gyfaddawdu aelodau'r pwyllgor.

**Pwerau dirprwyedig**
Sefydlu ac adolygu yn ôl yr angen strwythur staffio'r ysgol a gwneud argymhellion i'r corff llywodraethu.
Sicrhau bod yr holl weithdrefnau sy'n ymwneud â recriwtio'n cael eu hadolygu yn dilyn newidiadau i ddeddfwriaeth.
Ymgymryd â phenodi staff parhaol yn y strwythur staffio nad yw wedi'i ddirprwyo i'r pennaeth a hysbysu'r corff llywodraethu am y penodiadau hyn (e.e. gall y corff llywodraethu fod wedi dirprwyo penodiad yr holl staff cefnogi i'r pennaeth).

**Eiddo, iechyd a diogelwch**
Darparu arweiniad a chymorth i'r pennaeth a'r corff llywodraethu o ran yr holl faterion sy'n ymwneud â gwaith cynnal a chad war yr eiddo a'r tir ac iechyd a diogelwch.
Cydymffurfio â'r Polisi Iechyd a Diogelwch, gan gynnwys y polisi a'r gweithdrefnau monitro ac adolygu.
Sicrhau bod y camau gweithredu'n cael eu cymryd o ran deddfwriaeth iechyd a diogelwch.
Cynghori'r corff llywodraethu ar flaenoriaethau, gan gynnwys iechyd a diogelwch a chynnal a chadw a datblygu eiddo.
Goruchwylio trefniadau ar gyfer trwsio a chynnal a chadw eiddo.
Ystyried tendrau ar gyfer gwaith, fel sy'n briodol.
Monitro'r canlynol:

- effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir drwy'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth a chontractau
- y defnydd effeithlon o gyfleustodau megis dwr, trydan neu nwy
- adroddiadau iechyd a diogelwch
- adroddiadau ar gyflwr adeiladau ac amgylchedd yr ysgol

Derbyn adroddiadau tymhorol ar y gweithdrefnau gwacau os bydd tân.
Sicrhau bod teithiau iechyd a diogelwch rheolaidd yn cael eu cynnal.
Sefydlu ac adolygu Cynllun Hygyrchedd.
Ceisio cyngor proffesiynol gan yr awdurdod lleol, yr awdurdod esgobaethol neu eraill yn ôl yr angen.
Mynychu hyfforddiant perthnasol, lle y bo'n briodol.

## Gweithgorau posib

**Adroddiad Blynyddol i Rieni:** Drafftio'r Adroddiad Blynyddol i Rieni, i'w gymeradwyo gan y corff llywodraethu.

**Cynllun Gweithredu Ôl-arolwg:** Ar y cyd â'r pennaeth, y GCA a'r ALl, ystyried Cynllun Gweithredu Ôl-arolwg draft yr ysgol yn dilyn arolwg Estyn, a'i argymell i'w gymeradwyo'n llawn gan y llywodraethwyr.

## Enghraifft Amlinellol o Strwythur Pwyllgor

Atodiad Ch

